# Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 17EG MAI, 2019**

Lleoliad

**Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy LL32 8DU**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10/05/19)

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gareth Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| David Jones | Coleg Cambria |
| Is-ganghellor, yr Athro Graham Upton | Prifysgol Bangor |
| Ashley Rogers | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Sasha Davies | Bwrdd Cyflawni Busnes |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd hyd Gyfarfod Blynyddol y Bwrdd ar 21 Mehefin, 2019.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd hyd Gyfarfod Blynyddol y Bwrdd ar 21 Mehefin, 2019.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 7. DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS AC AR GYNNYDD PROSIECTAU — 10 - 29

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

## 8. RHAGLEN WAITH CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2 — 30 - 33

Adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 9. BWRDD CYFLAWNI BUSNES — 34 - 42

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

## 10. IS-GRWP TWRISTIAETH — 43 - 46

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol a Jane Richardson, Cyfarwyddwr Strategol yr Economi a Lle, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ynghlwm).

**11. ADRODDIAD ALLDRO 2018-19 A'R FFURFLEN FLYNYDDOL** 47 - 64

Adroddiad gan Dafydd Edwards, Swyddog Cyllid Statudol (ynghlwm).

**12. CYNLLUN CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU** 65 - 70

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

**13. YMCHWILIAD I EFFEITHIOLRWYDD CYNLLUNIAU TWF A BARGEINION DINESIG I GYMRU** 71 - 76

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

**14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

**15. CYFARWYDDWR RHAGLEN - TYNNU RHESTR FER**

Tynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer y swydd Cyfarwyddwr Rhaglen (ceisiadau a dogfennau ategol i'w cylchredeg ar wahân ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn unig).

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 12.4.19

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Bryn Jones (Prifysgol Bangor), David Jones (Coleg Cambria), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) a Sasha Davies (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion - Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych) ac Ian Bancroft (Cyngor Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Adran 151), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) gan fod y Cadeirydd, y Cynghorydd Aaron Shotton, wedi sefyll i lawr fel Arweinydd Cyngor Sir Fflint.

Nododd yr Is-gadeirydd y bu'n fraint cydweithio gyda'r Cynghorydd Aaron Shotton ac y byddai colled fawr ar ei ôl. Cytunwyd i anfon llythyr ato, ar ran aelodau'r Bwrdd, i ddiolch iddo am ei waith dros bobl Gogledd Cymru ac i ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Croesawyd y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd newydd Cyngor Sir Fflint, i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Uchelgais.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2019 fel rhai cywir, yn ddarostyngedig i'r cywiriadau isod:-

Presenoldeb – nodi mai'r Dr Gwynne Jones, ac nid Marc Jones, oedd yn bresennol fel prif swyddog ar ran Cyngor Sir Ynys Môn.

Diweddariad ar raglen waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd:-

- Nodi y bu i'r Grŵp Cyflawni Busnes bwysleisio pwysigrwydd cynnwys Twristiaeth Antur o fewn y prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol.
- Nodi y bu i Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod Adeiladwaith Carbon Isel yn rhan o'r prosiect Tir ac Eiddo.

## 5. DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith, yn unol â'r adroddiad.**
2. **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar swydd ddisgrifiad a'r broses o benodi Rheolwr Rhaglen Ddigidol.**
3. **Ymrwymo hyd at £55,000 (yn amodol ar arfarniad swydd a llwyddiant y Cynllun Twf) o'r gyllideb "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" ar gyfer ariannu'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol am gyfnod o flwyddyn.**
4. **Cyflwyno adroddiad cynnydd chwarterol ar waith y Bwrdd i'r partneriaid unigol ar gyfer dibenion adrodd a chraffu y cyrff unigol**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Diweddaru a chadw trosolwg ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith.
Cymeradwyo proses penodi Rheolwr Rhaglen Digidol.
Er sicrhau llif gwybodaeth ar y prosiect i'r cyrff partneriaethol.

**TRAFODAETH**

Mynegwyd anfodlonrwydd a phryderon gan y sefydliadau addysg ynglŷn â'r drefn o flaenoriaethu cynlluniau. Nodwyd hefyd nad oedd y llythyrau at Nigel Adams, AS a Ken Skates, AC wedi eu rhannu gyda hwy cyn eu hanfon at y ddwy Lywodraeth. Tynnwyd sylw hefyd nad oedd logos yr holl bartneriaid ar y llythyrau hynny. Roeddent o'r farn bod hyn oll yn tanseilio'r bartneriaeth a'u rôl hwythau fel ymgynghorwyr i'r Bwrdd.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Is-gadeirydd nad oedd bwriad i danseilio unrhyw agwedd o'r bartneriaeth a bod y bartneriaeth yn hollol gyfartal. Cadarnhaodd hefyd na wnaed unrhyw benderfyniadau caled ynglŷn â chynlluniau unigol, a bod y cynlluniau wedi'u rhaglennu, yn hytrach na'u blaenoriaethu.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Arweiniol fod llythyr wedi'i anfon at y ddwy Lywodraeth ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd yn nodi y bydd y prosiectau yn cael eu rhaglennu. Yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd roedd cydnabyddiaeth bod rhai o'r prosiectau ar y blaen yn nhermau parodrwydd. Nodwyd bod 5 prosiect trawsnewidiol wedu eu hadnabod fel rhai fyddai yn barod ar gyfer y cam cyntaf: Prosiect Cysylltedd Digidol; Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol, Porth Caergybi; Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar; Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd. Cytunwyd y byddai'r 14 prosiect yn cael eu cynnwys o fewn Penawdau'r Telerau, gan eu cynnwys mewn 2 gam. Golyga "parod" fod y prosiectau yn bodloni profion (a) prawf cysyniadol, (b) deilliannau ac effaith, (c) buddsoddiad a buddsoddiad anuniongyrchol y sector breifat a (d) parodrwydd i gyflawni ar amser.

## 6. COFRESTR RISG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo ffurf a strwythur y Gofrestr Risg, a chytuno bod y risgiau a'r statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) sydd wedi'u cynnwys yn gywir ac yn ddigonol a bod y mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi yn gymesur o ystyried y risgiau sydd wedi'u hadnabod.**
2. **Adrodd yn chwarterol ar y risgiau i'r Bwrdd Uchelgais ac yn fisol i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru angen Cofrestr Risg fanwl ar gyfer y cam Cynllunio a Datblygu.

Ystyrir bod adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais yn ddigonol, gan y bydd yna adrodd yn fisol i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.

**7. SEFYDLU IS-FWRDD TRAFNIDIAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD**

1. **Penodi Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth gyda'r Rôl a'r Cylch Gorchwyl wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
2. **Penodi Arweinydd Cyngor Sir Fflint, y Cynghorydd Ian Roberts, i weithredu fel aelod cyswllt gyda'r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn sgil dechrau Cytundeb Llywodraethu Un ("GA1") a sefydlu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fel Cyd-bwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau, mae angen penderfyniad ffurfiol y Bwrdd Uchelgais er mwyn penodi is-bwyllgor.

**8. BWRDD CYFLAWNI BUSNES**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Gohirio penderfyniad ar y mater hwn hyd oni fydd canlyniad yr ymgynghoriad â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y bwriad yn hysbys.**
2. **Bod y trafodaethau gyda'r Llywodraethau i gychwyn ar sail yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais.**
3. **Rhoi sylw i'r materion canlynol wrth ddarparu drafft pellach o'r adroddiad:-**

   **(i) Rôl Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy;**
   **(ii) Atebolrwydd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes;**
   **(iii) Yr angen i symleiddio rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd;**
   **(iv) Pryder bod galwadau cynyddol ar fusnesau i gymryd rhan mewn trefniadau cyffelyb;**
   **(v) Materion cyllidol**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn cael eglurder ynglŷn â materion penodol a godwyd cyn rhoi'r Bwrdd Cyflawni Busnes ar sylfaen ffurfiol fel rhan o strwythur datblygol y prosiect.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan Sasha Davies ar gyfarfod o'r Bwrdd Cyflawni Busnes a gynhaliwyd y diwrnod cynt lle pwysleisiwyd yr angen am eglurder ar rai materion, sef atebolrwydd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes, yr angen i symleiddio rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd, pryder bod galwadau cynyddol ar fusnesau i gymryd rhan mewn trefniadau cyffelyb a rhai materion cyllidol, megis trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd. Derbyniodd Ashley Rogers fod angen adnabod a diffinio rôl Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy â'r disgwyliadau ganddynt hwy hefyd, a nododd fod ganddo awgrymiadau ynglŷn â sut i gyfarch hyn.

## 9. PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU - GWELLA TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad cryno ar gynigion Llywodraeth Cymru i Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn rhoi hysbysu'r Bwrdd o'r ymateb rhanbarthol sydd wedi'i gyflwyno.

## 10. ADOLYGIAD(AU) BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE (SBCD)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad ar yr argymhellion sydd yn y ddau adroddiad adolygiad, "Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe" ac "Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**
2. **Nodi'r asesiad RAG (Red, Green, Amber) o statws Cynllun Twf Gogledd Cymru yn erbyn bob un o'r argymhellion.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Er mwyn i'r Bwrdd Uchelgais ddeall casgliadau ac argymhellion yr Adroddiad(au).
2. Er mwyn Bwrdd Uchelgais ganolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd o'r gwelliannau a awgrymir o fewn yr Adroddiad(au) er mwyn gallu bwrw ymlaen â Chynllun Twf Gogledd Cymru.
3. Er mwyn asesu sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais yn erbyn yr argymhellion a'r casgliadau sydd yn yr Adroddiad(au).

**TRAFODAETH**

Nodwyd nad oedd rhai o'r argymhellion hyn wedi'u derbyn a'u bod i'w hystyried ymhellach yn rhanbarth Bae Abertawe.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00yb a daeth i ben am 1.05yp.

____________________________________

Cadeirydd

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 Mai, 2019**

**TEITL:** *Diweddariad ar Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais ac ar gynnydd prosiectau*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Cafodd cais ei wneud gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Rhaglen Waith cae ei gyflwyno i bob cyfarfod bwrdd.

1.2. Mae dogfen Diweddariad ar gynnydd prosiectau wedi ei ddatblygu ar gyfer darparu diweddariadau rheolaidd gan Noddwyr Prosiectau ar gynnydd ac datblygiad prosiectau unigol. Bydd y Diweddariad ar gynnydd prosiectau yn cael ei drafod yn fisol gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ac yna ei adolygu yn chwarterol gan y Bwrdd Uchelgais.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Adolygu, diweddaru a cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith.

2.2. Hysbysu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o ddiweddariadau prosiectau unigol.

**3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Diweddaru ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith.

3.2. Diweddaru ar gynnydd prosiectau unigol.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. **Rhaglen Waith** (Atodiad 1)

4.1.1. Mae'r rhaglen waith yn gosod allan tasgau allweddol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros 3 chwarter. Mae'r rhaglen waith yn adnabod 10 categori allweddol, gyda tasgau penodol yn erbyn y categorïau. Mae amserlen a cyfrifoldeb wedi osod yn erbyn pob tasg, ynghyd a statws RAG.

4.1.2. Mae pob tasg wedi ei adolygu ac wedi cael statws RAG, yn unol a'r canllawiau isod:

| Statws RAG | Statws y dasg | Camau angenrheidiol |
|---|---|---|
| **GWYRDD** | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddymunol | Dim angen camau rheoli |
| **MELYN** | Efallai bod risg na fydd y dasg yn cyrraedd yr amserlen | Camau rheoli ei angen i fynd i'r afael â materion |

| | | |
|---|---|---|
| **COCH** | Mae risg bod y dasg yn mynd i fethu'r dyddiad cwblhau a amserlenwyd | Camau brys eu hangen i fynd i'r afael â materion |

4.1.3. Mae pob tasg oedd wedi ei amserlennu ar gyfer Ch1 2019 yn wyrdd ac wedi ei cwblhau.

4.1.4. Mae mwyafrif y tasgau sydd wedi amserlenni ar gyfer Ch2 2019 ar y trywydd iawn i gwblhau o fewn yr amserlen ac efo statws RAG gwyrdd neu melyn. Gyda'r eithriad o'r isod mewn coch:

- Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru
- Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf

4.1.5. Mae dogfen Cerrig Milltir Allweddol (Atodiad 1) gan y ddwy Lywodraeth wedi rannu gyda'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r ddogfen yn cynnwys dyddiadau a camau allweddol ar gyfer cyrraedd cytundeb Penawdau'r Telerau erbyn diwedd Gorffennaf 2019. Gyda'r Sesiynau Herio i'w cynnal yn ystod Mai/Mehefin 2019.

4.1.6. Mae'r Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer yr 14 prosiect a'r Cynllun Gweithredu wedi gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Prydain ar 24/03/2019. Bydd y ddwy Lywodraeth yn cydweithio ar gyfer darparu adborth yn ystod mis Mai.

4.1.7. Anfonodd Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru, Kevin Foster AS lythyr i Is-Gadeirydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (Atodiad 4). Mae'r llythyr yn nodi ei ymrwymiad i ddull ar y cyd gan y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth i gyrraedd Penawdau'r Telerau erbyn Gorffennaf 2019.

**4.2. Diweddariad ar gynnydd Prosiectau** *(Atodiad 3)*

4.2.1. Mae'r ddogfen Diweddariad ar gynnydd Prosiectau wedi ddatblygu ar gyfer prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y ddogfen yn cael ei reoli, adolygu a diweddaru gan y Swyddfa Rhaglen.

4.2.2. Bydd y ddogfen Diweddariad ar gynnydd Prosiectau yn cael ei adolygu ym mhob cyfarfod y Grŵp Swyddogion Gweithredol, ac ei adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais.

4.2.3. Mae'r Diweddariad ar gynnydd Prosiectau yn rhoi trosolwg o gynnydd yn erbyn pob un o brosiectau'r Cynllun Twf. Mae'r 14 prosiect ar hyn o bryd yn cael ei datblygu gan baratoi drafftio y manylder ar gyfer yr achosion busnes pum cam.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae'r Rhaglen Waith a'r Diweddariad ar gynnydd Prosiectau wedi drafod a'i gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 03/05/2019.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Rhaglen Waith |
| **Atodiad 2** | Cerrig Milltir Allweddol |
| **Atodiad 3** | Diweddariad ar gynnydd Prosiectau |
| **Atodiad 4** | Llythyr gan Kevin Foster AS |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi agweddau cyllidol o'r Rhaglen Waith atodol."

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**RHAGLEN WAITH SYLFAENOL AR GYFER Y BWRDD UCHELGAIS**

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb | Statws RAG | Risg wedi adnabod |
|---|---|---|---|---|---|
| **Penawdau'r Telerau** | • Cymeradwyo "Rhaglenni" ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. (3 Maes Thematig Allweddol a 4 Hwylusydd Allweddol). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | |
| | • Asesu'r opsiynau a chytuno ar ffordd ymlaen ar y gyllideb o £240 miliwn sydd gael gan Lywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Twf. (Cynllun Gweithredu Drafft) | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | HT 05 |
| | • Adolygu Achosion Busnes Amlinellol i gyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Drafft. | Ch1 2019 | Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol | WEDI GWBLHAU | HT 04 |
| | • Cymeradwyo/Adborth ar yr Achosion Busnes Amlinellol | Ch2 2019 | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | Wedi gyflwyno i LlP ac LlC ar 24/03/2019 | HT 04 |
| | • Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. | Ch2 2019 | Cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | HT 02 |
| | • Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Wedi gyflwyno i LlP ac LlC ar 24/03/2019 | HT 05 |
| | • Cytuno ar lefel briodol a chymesur o asesu a gwerthuso achosion busnes ar gyfer prosiectau'r cynllun twf. | Ch2 2019s | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | HT 04 |
| | • Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC<br><br>Bydd angen ystyried hyn fel mater a allai olygu cael penderfyniad y | | HT 01 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cynghorau unigol ar yr adeg briodol. | | |
| | • Cytuno ar y "cynlluniau ar yr ochr" gyda LIC neu MoUs (er enghraifft Trafnidiaeth, eiddo, Twf Busnes, Sgiliau i gyflawni'r Weledigaeth Twf). | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / LlC | | HT 06 |
| **Llywodraethu** | • Ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn ffurfiol. | Ch1 2019 | Corff Atebol | WEDI GWBLHAU | GO 03 |
| | • Trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | GO 03 |
| | • Cytuno ar Gylch Gorchwyl ac ymgysylltiad gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes (bwrdd ymgynghorol y sector preifat). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Adroddiad i'r BUEGC ar 17/05/2019 | GO 10 |
| | • Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | GO 05 |
| | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer is-bwyllgorau, yn benodol yr is-bwyllgor trafnidiaeth a'r is-bwyllgor digidol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | GO 08 |
| | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr is-bwyllgorau "anffurfiol" (Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo, Busnes ac Arloesi, Twristiaeth). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Adroddiad i'r BUEGC ar Sgiliau a Chyflogaeth ar 19/07/2019 | GO 08 |
| | • Adnabod a dewis yn derfynol y Corff Atebol ar gyfer GA2. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | | GO 07 |
| | • Cytundeb ar Drefniadau Craffu. | Ch2/Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor a Trefniadau craffu'r Cynghorau | | GO 09 |
| | • Ymgymryd â phroses benodi gyhoeddus ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | Adroddiad i'r BUEGC ar 17/05/2019 | GO 11 |
| | • Trafod a chytuno ar gydweithio a model llywodraethu gyda'r Grŵp Tai | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Adroddiad i'r BUEGC ar 19/07/2019 | |
| | • Cymeradwyo dogfen "Ein dull Gweithredu" sydd yn gosod trefniadau diwylliannol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Adroddiad i'r BUEGC yn Mehefin 2019 | |
| **Cyllid** | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb ar gyfer 2019/20 a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | FIN 01 |
| | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb dros 3 blynedd a | Ch1 2020 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | Bydd yn cael ei adrodd yn ystod Ch1 2020 | FIN 01 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | | Bydd cynnydd mewn cyfraniadau yn faterion a gedwir i'r Partïon | | |
| | • Cytuno ar gyllideb ar gyfer y Corff Atebol. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | FIN 01 |
| | • Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu. | Ch3 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | | FIN 02 |
| | • Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol. | Ch3 2019 | Partneriaid a Swyddogion Cyllid y Corff Atebol | | FIN 03 |
| | • Arian Llywodraeth yn cael ei ryddhau ar gyfer prosiectau | Ch2 2020 | Llywodraeth y DU / LlC | | |
| **Swyddfa Rhaglen** | • Cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | WEDI GWBLHAU | PO 01 |
| | • Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Trefniadau mewn lle ar gyfer 21/06/2019 | PO 01 |
| | • Cytuno ar ddyluniad, cost a strwythur y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | Adroddiad i'r BUEGC ar 19/07/2019 | PO 02 |
| | • Cytuno ar Gais Capasiti Sefydliadol ESF i gefnogi gyda gwaith y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | Adroddiad i'r BUEGC ar 19/07/2019 | PO 03 |
| | • Penodi Rheolwyr Rhaglen o fewn y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | | PO 04 |
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | • Cytuno ar y Broses Cymeradwyo Prosiectau (a'r broses ddirprwyo). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | CSP 01 |
| | • Cytuno ar brosiect Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | Adroddiad i'r BUEGC ar 19/07/2019 | CSP 02 |
| | • Cyflwyno'r prosiect LFFN. | Ch2 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor | | |
| | • Hyfforddiant Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer arweinwyr prosiect | Ch2 2019 | Partneriaid | Wedi drefnu 13&14/05/2019 | |
| | • Datblygu Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer Prosiectau'r Cynllun Twf. | Ch2/Ch3 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor | | |
| | • Cwblhau Achosion Busnes llawn ar gyfer y prosiectau cyntaf | Ch3 2020 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | |
| | • Gweithredu prosiectau | 2020/21 | Cyd-bwyllgor | | |
| | • Cymeradwyo'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithiol a Chaffael** | • Datblygu Templed o Gytundeb Ariannu i alluogi trosglwyddo arian y Cynllun Twf i Awdurdodau Arweiniol y Prosiectau sy'n derbyn yr arian. | Ch3 2019 | Corff Atebol / Swyddogion Adran 151 / Monitro / Cyd-bwyllgor | | |
| | • Cytuno ar gynllun prosiect ac amserlen i fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Swyddogion Monitro | | LP 01 |
| | • Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch3 2019 | Materion a gedwir i'r Partïon | | GO 07 |
| | • Cytuno ar Strategaeth Gaffael y Cynllun Twf. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | | LP 02 |
| **Monitro ac Arfarnu** | • Datblygu Cofrestr Risg y Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | WEDI GWBLHAU | MP 01 |
| | • Cytuno ar Gynllun Monitro ac Arfarnu. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | | MP 02 |
| | • Gwerthuso effaith prosiectau | 2020/21 | Cyd-bwyllgor | | |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | SEC 01 |
| | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | SEC 01 |
| | • Cytuno ar Gynllun a phrotocol Cyfathrebu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | SEC 01 |
| **Swyddogaeth Ranbarthol Strategol** | • Edrych i mewn i swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gweithrediad y cynllun a gweithgareddau datblygu ehangach. | Parhaus | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | |
| | • Cytuno ar brotocol gyda Gweinidog Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol newydd. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Gweinidog Gogledd Cymru / Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol | | |
| **Rheoli Cyflawni** | • Pob Bwrdd Prosiect yn ei le i gydlynu cyflawni'r prosiectau sydd wedi'u comisiynu. | Parhaus | Arianwyr y Prosiectau | | GO 08 |

**Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cerrig Milltir Allweddol Ebrill 2019**

| Amserlen | Tasg | Cynnydd | *Aseiniwyd i* /nodiadau |
|---|---|---|---|
| **Ionawr 2019** | Achosion busnes amlinellol strategol wedi'u diweddaru i'w hail-gyflwyno i'r llywodraeth | Wedi cwblhau | *Gogledd Cymru*<br>Derbyniwyd ar 24 Mawrth 2019 |
| **Ebrill 2019** | Rhannu'r Achosion Busnes Amlinellol Strategol gydag adrannau i brofi a oes cefnogaeth i'r prosiectau i gael eu cynnwys ym Mhenawdau'r Telerau | Yn mynd rhagddo | *Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |
| **Ebrill 2019** | Mireinio'r cynigion llywodraethu cyn ymgysylltu a her gan weinidogion | Yn mynd rhagddo | *Gogledd Cymru* |
| **Ebrill 2019** | Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu law yn llaw ag achosion busnes y prosiectau a'r cynigion llywodraethu | Yn mynd rhagddo | *Gogledd Cymru* |
| **Mai 2019** | Swyddogion i gynghori Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa Cymru, y Gweinidog Twf Lleol ac Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru ar gynigion y prosiectau.<br>Swyddogion i roi adborth i Ogledd Cymru ar yr achosion busnes amlinellol | Yn mynd rhagddo | *Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |
| **Mai / Mehefin 2019** | Gogledd Cymru i fireinio cynigion yn seiliedig ar adborth yr arweinwyr polisi. | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru* |
| **Diwedd Mai/Mehefin 2019** | Ymgysylltiad gweinidogol gydag arweinyddion ar y cynigion (Sesiynau Herio)<br>(1) Sesiwn y Sector Preifat<br>(2) Gyda phartneriaid Gogledd Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol<br>(3) Gydag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru a phartneriaid Gogledd Cymru<br>Sesiwn weinidogol ar y cyd (Ll y DU a LlC) | Heb ddechrau | *Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru/Gogledd Cymru/Sector Preifat* |
| **Diwedd Mai 2019** | Dechrau drafftio'r cytundeb Penawdau'r Telerau | Yn mynd rhagddo | *Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dechrau Mehefin 2019** | Cwblhau cynnwys Penawdau'r Telerau | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru, Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |
| **Canol Mehefin 2019** | Ll y DU / LlC i ysgrifennu cliriad ar gyfer y ddogfen Penawdau'r Telerau. Lleiafswm o bythefnos | Heb ddechrau | Swyddfa Cymru / Llywodraeth Cymru |
| **Gorffennaf 2019** | **Llofnodi Penawdau'r Telerau** | Heb ddechrau | *Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru/Gogledd Cymru* |
| **Awst 2019 ymlaen** | Datblygu Achosion Busnes Amlinellol a'u cyflwyno i'r ddwy lywodraeth; rhai wedi'u datblygu i achos busnes llawn | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru* |
| **Dechrau 2020** | Adborth a chymeradwyaeth gan y llywodraeth i'r Achosion Busnes Amlinellol yng ngham 2 | Heb ddechrau | *Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |
| **Dechrau 2020** | Yr ardal yn datblygu achosion busnes llawn yn ymgorffori'r adborth a ddarperir gan arweinwyr polisi a dadansoddwyr y llywodraeth, er mwyn sicrhau rhyddhau cyllid y llywodraeth | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru* |
| **Ebrill 2020** | Dogfennau'n cael eu datblygu gan yr ardal i'w cynnwys yn y ddogfen cynllun llawn yn cynnwys: y Cynllun Ariannol, y Cynllun Gweithredu a'r Fframwaith Llywodraethu. Caiff y rhain eu profi a'u cytuno gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi. | Yn mynd rhagddo | *Gogledd Cymru* |
| **Erbyn 31 Gorffennaf 2020** | **Drafftio a llofnodi'r ddogfen cynllun llawn** | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru/Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |
| **Gorffennaf 2020** | Cwblhau achos busnes llawn ar y cynigion prosiect cyntaf sydd wedi'u llofnodi/cytuno | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru/Swyddfa Cymru/Uned Dinasoedd a Thwf Lleol/Llywodraeth Cymru* |
| **Blwyddyn Ariannol 2020/21** | Cyllid y llywodraeth yn cael ei ryddhau ar gyfer y prosiectau | Heb ddechrau | *Llywodraeth Cymru* |
| **Blwyddyn Ariannol 2020/21** | Cyflawni'r prosiect yn lleol ar droed | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru* |
| **Blwyddyn Ariannol 2020/21** | Gwerthuso effaith y prosiect yn lleol | Heb ddechrau | *Gogledd Cymru* |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU**
**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y PROSIECTAU**

| **RHAGLEN YNNI CARBON ISEL** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Nia Bowden | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Yn gweithio i ganfod y pecynnau gwaith gorau i'w cynnwys yn yr Achos Busnes terfynol yn sgil adborth gan arbenigwyr y diwydiant. | | Gweithdy i'w gynnal ar 08/05 er mwyn cytuno ar raglen waith. |
| Prosiect Morlais | Gerallt Llewelyn Jones | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae rhan fwyaf o gydrannau'r Achos Busnes yn eu lle. Diweddariad ar y gwaith sy'n weddill ar gyfer y Pum achos fel a ganlyn:-<br>1. Achos Strategol - mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau mewn gwirionedd<br>2. Achos Economaidd - yn casglu tystiolaeth allweddol ychwanegol ar gyfer effeithiau / buddion economaidd a gwerth am arian<br>3. Achos Masnachol - gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys ar gyfer tystiolaeth statws Cymorth Gwladwriaethol<br>4. Achos Ariannol - yn ymgymryd â Dadansoddiad Fforddiadwyedd terfynol. Diweddaru statws cyllid preifat.<br>5. Achos Rheoli - Trefniadau ar gyfer rheoli risg a chontractau mewn diweddariadau dilynol | | |

| RHAGLEN YNNI CARBON ISEL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | Iwan Prys Jones | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | | Trafodaethau manwl wedi'u cynnal gyda LlC. Tendrau wedi'u derbyn ar gyfer pedair astudiaeth fanwl ar gyfer y prosiectau peilot sydd wedi'u hadnabod yn yr Achos Busnes Amlinellol. Cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal i sefydlu grŵp llywio ar gyfer y Strategaeth Ynni Ranbarthol. Ymddiriedolaeth Garbon wedi'i phenodi i ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol | Angen adrodd i'r Bwrdd Uchelgais er mwyn sefydlu proses lywodraethu ffurfiol ar gyfer y Strategaeth Ynni Ranbarthol a chyflawni'r prosiect. |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | Yr Athro Paul Spencer / Bryn Jones | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae tîm prosiect Prifysgol Bangor (a phartneriaid) yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu (cynllunio busnes Pum Achos) a byddant yn mynd i'r hyfforddiant ar hyn yn ddiweddarach y mis hwn. | Mae'r Cyfleuster Hydrolig Thermol (THF) ar gam datblygedig o'r broses gymeradwyo (mae dyluniadau cysyniadol wedi'u cynhyrchu).<br><br>Mae cyfarfodydd pellach wedi'u cynnal yn ddiweddar gyda Rolls Royce a Wood. Mae'r THF wedi'i adnabod fel ased allweddol i Rolls Royce wrth ddatblygu eu technoleg SMR. Yn ogystal, mae ganddynt ofynion profi a dilysu sylweddol a fydd yn siapio cydran ICE y prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear. | Caiff datganiad pellach o gefnogaeth a defnydd yn y dyfodol ei gyhoeddi gan gonsortiwm diwydiannol y Ganolfan Ragoriaeth (yn cynnwys RR a Wood). Bydd eu manyleb gofynion ar gyfer profi a dilysu yn hysbysu'r broses Cynllunio Busnes Pum Achos. |

| RHAGLEN GWEITHGYNHYRCHU UWCH | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Aulay Mackenzie | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae tîm prosiect Prifysgol Glyndwr yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu (cynllunio busnes Pum achos) ac byddan yn mynd i'r hyfforddiant ar hyn yn ddiweddarach y mis hwn. | Cyfarfodydd mewnol yn cael ei cynnal er mwyn sicrhau parodrwydd i symud ymlaen i'r cam nesaf.<br><br>Mae Llywodraethwyr Bwrdd y Brifysgol wedi cael diweddariad ac yn gefnogol i'r prosiect.<br><br>Trafodaethau ac ymgysylltu rheolaidd yn cymryd lle gyda partneriaid ac diwydiant. | |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | Yr Athro Paul Spencer / James Goodman | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae tîm prosiect Prifysgol Bangor (a phartneriaid) yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu (cynllunio busnes Pum Achos) a byddant yn mynd i'r hyfforddiant ar hyn yn ddiweddarach y mis hwn. | Yn trafod gyda phencampwr busnes y prosiect (Finlays) ar y camau nesaf. Mae'r cwmni'n awyddus i ymgysylltu ymhellach yn y broses a symud ymlaen â'r manylion gyda'r arianwyr.<br><br>Mae'r prosiect peilot ERDF bellach yn gwbl weithredol ac yn ymgysylltu ag arianwyr ymchwil a busnes, yn cynnwys grantiau ymchwil newydd sylweddol gan NERC a Leverhulme, sydd werth £800k yn edrych ar ymddygiad plastigion yn yr amgylchedd morol. | Mae tîm y prosiect wedi adnabod diddordeb ychwanegol yn y prosiect gan Unilever a darparu gwasanaethau profi cychwynnol ar ddeunyddiau a ddarperir gan y cwmni. |

| **RHAGLEN DIWYDIANNAU AR Y TIR A THWRISTIAETH** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw’r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | GLlM (Paul Bevan) | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Paratoi manylion cefndirol a phellach i gefnogi'r Achos Busnes Llawn ar waith.<br><br>Mae mapio synergeddau'r prosiect â phrosiectau eraill y Cynllun Twf wedi'i wneud. | Mae manylder lefel nesaf lleoliadau'r Canolbwynt Economi Gwledig yn cael ei ddiffinio. Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid yng nghyswllt safle Glynllifon/prif gynllun wedi'u trefnu ar gyfer dechrau Mai.<br><br>Mae grŵp rhanddeiliaid yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r diffiniad o'r Canolbwynt a'r gwasanaethau a gynigir.<br><br>Rhestr o denantiaid y Canolbwynt yn seiliedig ar rwydweithiau presennol drwy Arloesi Bwyd Cymru yn cael ei chreu.<br><br>Trafodaethau gyda chyd-ddefnyddwyr/cydweithredol posib y Canolbwynt (gwasanaethau cefnogaeth a thwf). | |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | Coleg Cambria (Vivienne Martin) | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Achos Busnes wedi'i ddrafftio ac yn gweithio gyda'r sector preifat a rhanddeiliaid allanol. | Mae strwythur mewnol y prosiect yn ei le ac yn barod ar gyfer cyflawni. | |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | GLlM (Lawrence Wood) | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae gwaith wedi dechrau yn barod ar gyfer cwblhau'r Achos Busnes Llawn | Mae ymgynghori parhaus gyda busnesau twristiaeth a lletygarwch ledled y Gogledd ar waith ac mae'r adborth yn parhau'n gadarnhaol. Yn bwysig, mae'r mewnbwn hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dyluniad terfynol y prosiect, er enghraifft ychwanegu man dylunio a datblygu atyniad twristiaid arloesol o fewn y Ganolfan Ragoriaeth a ddatblygwyd yn dilyn mewnbwn gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - gogledd Cymru.<br><br>Mae Tîm Prosiect Gweithredol wedi'i ffurfio. Mae Bwrdd Rhanddeiliaid o'r Diwydiant yn cael ei ddatblygu.<br><br>Mae'r cynnig busnes ar gyfer 'adain' y sector twristiaeth yn cael ei ddatblygu. | |

| RHAGLEN TIR AC EIDDO | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | Iwan Prys Jones | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | | Mae gwerthusiadau datblygu safle ar gyfer prosiect Bodelwyddan bellach ar gael.<br><br>Mae trafodaethau'n parhau gyda datblygwyr a'r bartneriaeth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Mae angen cyllid datblygu ar gyfer gwerthusiad manwl o safleoedd eraill. |
| Prosiect Porth Caergybi | Dylan Williams | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Busnes fel arfer yn parhau o safbwynt Stena ond mae angen trafodaeth gyda'r cwmni a Llywodraeth Cymru i ganfod beth yw statws cyfredol cynllun busnes y cwmni ar gyfer y porthladd. | Cynhaliwyd trafodaethau ystyrlon gyda Stena ar 05/04.<br><br>Cyfarfod gydag Uwch Swyddogion Llywodraeth Cymru i'w drefnu cyn gynted â phosib. | |

| RHAGLEN DDIGIDOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | Steve Bayley | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae GreySky Consulting Ltd wedi'u comisiynu i ddarparu cyngor a chefnogaeth technegol i ddrafftio'r achos busnes llawn. | Cynllun gweithredu drafft wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd 2018. Mae angen ei ddiweddaru i adlewyrchu llwyddiant y cais LFFN.<br><br>Mae gwaith wedi canolbwyntio ar gyfraniad y sector preifat, masnacholi isadeiledd dwythellau newydd a sut orau i ddarparu band eang tra chyflym o leiaf i'r "ychydig % sydd ar ôl". | Disgwylir cymeradwyaeth derfynol ar gyfer LFFN erbyn diwedd Ebrill yn dilyn cytundeb Ariannu wedi'i lofnodi rhwng Cyngor Sir Ddinbych (ar ran chwe Awdurdod Lleol y Gogledd) a DCMS Llywodraeth y DU. |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | Yr Athro Paul Spencer / Ieuan Wyn Jones | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | Mae tîm prosiect Prifysgol Bangor (a phartneriaid) yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu (cynllunio busnes Pum Achos) a byddant yn mynd i'r hyfforddiant ar hyn yn ddiweddarach y mis hwn. | Mae arian ERDF ar gyfer prosiect peilot wedi'i gytuno y mis hwn a fydd yn caniatáu ar gyfer adeiladu peth capasiti cychwynnol ac ymgysylltiad pellach gyda phartneriaid sydd wedi'u hadnabod yn y diwydiant (yn cynnwys BT). Bydd y broses Cynllunio Busnes Pum Achos yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd mor agos â phosib â gofynion y diwydiant. | Mae hwn yn sector sy'n symud yn gyflym ac er mwyn sicrhau hyder parhaus partneriaid y diwydiant mae angen symud yn amserol i gam nesaf datblygu'r prosiect. |

| RHAGLEN TRAFNIDIAETH STRATEGOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Arweinydd Prosiect (Enw Cyswllt)** | **Diweddariad Achosion Busnes Amlinellol** | **Diweddariad Achosion Busnes Llawn** | **Diweddariad Prosiect** | **Sylwadau eraill/materion i'w nodi** |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol | Iwan Prys Jones | Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol i Ll y DU a LlC ar 24/03/2019 | | Mae Steer wedi'u penodi i gyflawni cynigion gweithredu manwl i'r prosiect. Disgwylir yr adroddiad ddiwedd Mai 2019. Ceisir am gyllid ar gyfer gwaith Achos Busnes Llawn manwl yn dilyn y strategaeth gychwynnol. | Mae'r grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth rhanbarthol bellach wedi'i sefydlu fel is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais er mwyn darparu dull cyflawni i'r rhaglen. |

**Kevin Foster MP/AS**
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

**T:** 020 7270 0575
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,
Is-gadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Arweinydd Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Arweinydd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru

17 Ebrill 2019

Annwyl Gynghorydd Siencyn,

**Cynllun Twf Gogledd Cymru**

Fel y gwyddoch, mae sicrhau Cynllun Twf i Ogledd Cymru yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth y DU. Felly, wedi i mi gael fy mhenodi yn Weinidog Llywodraeth y DU dros Gymru, rwy'n hynod o falch mai fi fydd Gweinidog y DU sy'n gyfrifol am y trafodaethau wrth i ni weithio tuag at gytundeb Penawdau'r Telerau.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i Gynllun Twf Gogledd Cymru. Nodaf gynnwys eich llythyr i'm rhagflaenydd. Mae mis Gorffennaf 2019 yn amserlen uchelgeisiol, a bydd yn hanfodol i'r holl bartïon weithio gyda'i gilydd er mwyn cael y cynllun dros y linell a chwblhau'r Cytundeb Penawdau'r Telerau'n gyflym. Rwy'n awyddus i barhau â'r dull cydweithredol o weithio sydd wedi'i ddatblygu ac adeiladu ar hyn er budd y rhanbarth.

Er mwyn i'r Cynllun Twf fod yn llwyddiannus, bydd mewnbwn y sector preifat yn hanfodol. Dylai cyllid y Cynllun Twf allu denu lefelau sylweddol o gyd-fuddsoddiad gan y sector preifat lle bo hynny'n briodol. Bydd yn hanfodol i'r ddwy lywodraeth dderbyn sicrwydd addas bod y buddsoddiad gan y sector preifat, sydd wedi'i amlinellu yn yr achosion busnes amlinellol diweddaraf a'r cynllun gweithredu, ar ei ffordd. Rhaid cyfuno hyn â sicrhau bod trefniadau llywodraethu addas yn eu lle ar gyfer Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru er mwyn cefnogi a herio gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae fy swyddfa i, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn asesu eich cynigion yn erbyn y gofynion hyn ar hyn o bryd.

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP
www.gov.uk/wales

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ
www.gov.uk/cymru

Cytunaf fod ymagwedd ddeublyg tuag at gytundeb Penawdau'r Telerau yn ffordd synhwyrol ymlaen i'r cynllun. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar eich cynigion a sut maent yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth y DU tuag at Gynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gwneir hyn er mwyn datblygu datrysiad pwrpasol sy'n gweithio i bob parti sydd ynghlwm â Chynllun Twf Gogledd Cymru.

Bwriadaf fod yng Ngogledd Cymru ar 29 Ebrill er mwyn cwrdd â chi a thrafod y pwyntiau hyn yn fanylach. Bydd fy swyddfa yn cysylltu â chi mewn da bryd i gwblhau'r trefniadau hyn.

Gan ddymuno'n dda i chi.

Yn gywir

**Kevin Foster MP/AS**
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP
www.gov.uk/wales

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ
www.gov.uk/cymru

Cyng Mark Pritchard
Arweinydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,

30 Ebrill 2019

Annwyl Mark

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar ymhellach i'r cyfarfod gydag Arweinyddion ar 7 Mawrth a Diweddariad ar y Cynllun Twf.

Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn adolygu, ar draws y llywodraeth, Achosion Busnes diwygiedig Cynllun Twf Gogledd Cymru a gyflwynwyd ddiwedd Mawrth, ynghyd â'r cynllun gweithredu, a byddwn yn darparu adborth yn ystod mis Mai. Deallaf, yn y cyfamser, fod trafodaethau'n parhau rhwng swyddogion y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn cael eglurder a thystiolaeth i gefnogi'r cynllun.

Mewn egwyddor, rwy'n gefnogol o ddull gweithredu graddol ar gyfer y cynllun er mwyn caniatáu iddo ymateb i newidiadau i'r economi, neu i dechnoleg, yn y dyfodol. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu ymagwedd ddeublyg, mae'n bwysig i hyn gael ei danategu gan dystiolaeth feintiol a'i gefnogi gan fusnesau yn y rhanbarth. Hoffwn weld y dystiolaeth galed sydd wedi arwain at ddewis y prosiectau cam un, a'r farn gyfatebol gan fusnesau ynghylch y prosiectau hyn. Deallaf fod fy swyddogion eisoes wedi cwestiynu'r ffaith nad yw'r Ganolfan Ragoriaeth Niwclear wedi'i chynnwys yng ngham un, o gofio ei bod yn cyd-fynd â phrosiect Trawsfynydd yn benodol.

Mae'r sesiwn ddeuddydd o hyfforddiant sy'n cael ei threfnu gan Lywodraeth Cymru, ym mis Mai, yn gyfle i arweinwyr Cynllun Twf Gogledd Cymru i glywed gan Drysorlys Llywodraeth y DU a Thrysorlys Llywodraeth Cymru ar fanylder a phwysigrwydd y fethodoleg Busnes Pum Achos, ond bydd hefyd yn rhoi cyfle i arweinwyr prosiectau a rhaglenni i edrych ar sut ellir defnyddio'r dull hwn yn ymarferol gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru a'r hyblygrwydd y gall gynnig.

Ymhellach, rwy'n ymroddedig i sefydlu strwythur llywodraethu ymatebol, cymesur ac effeithiol i gefnogi cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. I'r perwyl hwn, rwyf wedi gofyn i Wendy Boddington, Pennaeth Cyflawni Rhanbarthol, sy'n adrodd i'r Prif Swyddog Rhanbarthol, Gwen Roberts, i weithio gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a swyddogion Llywodraeth y DU i ddatblygu'r prosesau angenrheidiol a gweithio tuag at gytuno ar Benawdau'r Telerau cyn gwyliau'r haf.

Fel y nodwyd yn fy ymateb i chi fel Cadeirydd Panel Arweinyddion y Gogledd dyddiedig 15 Ebrill, rwy'n cydnabod yn llawn rôl y Bwrdd Uchelgais fel y corff atebol ar gyfer y Cynllun Twf. Mae ein perthynas a'n cydweithio parhaus yn helpu i gryfhau'r Cynllun Twf a'n hagenda rhanbartholi a fydd yn gorwedd law yn llaw â'i gilydd.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 MAI 2019**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Rhaglen Waith Cytundeb Llywodraethu 2* |
| **AWDUR:** | *Iwan G D Evans - Swyddog Monitro - Corff Atebol* |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Adrodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r ail Gytundeb Llywodraethu a cheisio cymeradwyaeth iddi.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer paratoi a chwblhau Cytundeb Llywodraethu 2.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Mae'r Partneriaid wedi cytuno y byddai trefn lywodraethu a phartneriaeth gefnogol y Cais Twf a'r Weledigaeth yn cael eu datblygu mewn dau gam cychwynnol. Mae'r partneriaid wedi cwblhau Cytundeb Llywodraeth 1 ("GA1") a wnaed er mwyn symud y prosiect ymlaen i gynnig ariannu ffurfiol. Y bwriad oedd cytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2 ("GA2") dilynol er mwyn symud y bartneriaeth ymlaen i'r cyfnod gweithredu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhaglen arfaethedig i greu'r cytundeb hwnnw.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Datblygwyd GA1 ar gyfer y cam cyntaf hwn o'r Cynllun Twf i'w fabwysiadu gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais. Datblygwyd y Cytundeb Llywodraethu gan y rhwydwaith Penaethiaid Cyfreithiol rhanbarthol a chyda chyngor arbenigol ac annibynnol yr ymgynghorwyr cyfreithiol, Pinsents, Solicitors. Mae GA1 yn darparu fframwaith cynhwysfawr yn nhermau strwythurau llywodraethu, aelodaeth, cyfansoddiad a dirprwyo i'r Bwrdd Uchelgais. Hefyd, mae'n gytundeb partneriaeth sy'n sefydlu'r bartneriaeth ac yn diffinio'r ymrwymiadau, y cyfrifoldebau a'r disgwyliadau rhwng y partïon. Y cytundeb hwn fydd y model sylfaenol ar gyfer GA2. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen i gyfnod gweithredu'r prosiect, bydd angen cytundeb partneriaeth sy'n briodol ar gyfer cynnal a datblygu prosiect rhanbarthol sylweddol, yn nhermau sgôp a chyllid ond hefyd yng nghyswllt risgiau.

4.2 Mae'r isod yn rhoi amlinelliad o'r agweddau allweddol y bydd angen rhoi sylw iddynt wrth i GA2 gael ei baratoi:

Adolygu Strwythurau Llywodraethu
Adolygu Amcanion
Datblygu llywodraethiant y Weledigaeth Twf

Dirprwyo a chylch gorchwyl
Materion sydd wedi'u cadw'n ôl i Bartneriaid unigol
Rheoli buddiannau sy'n gwrthdaro
Trefniadau craffu
Oes a therfynu
Indemniad rhwng partïon ac ar gyfer y Corff Atebol
Cyfrifoldebau'r partïon
Tynnu'n ôl - beth fydd y gosb am dynnu'n ôl?
Cymeradwyo, monitro a rheoli prosiectau'r Cynllun Twf
Rheoli Risg
Cynllunio Busnes
Strwythurau a cherbydau busnes
Perchnogaeth tir, sut caiff ei drefnu,
Cyfraniadau a Chostau Partneriaid
Rhannu Cyfraniadau i'r Cynllun Twf
Ymdrin ag unrhyw golledion
Mecanweithiau talu
Proses ar gyfer cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol

4.3 Er mwyn datblygu GA2, bydd angen mewnbwn gan bartneriaid ac arbenigwyr. Mae Pinsents ar gadw ar gyfer y gwaith hwn a gaiff ei ddatblygu gyda'r rhwydwaith Penaethiaid Cyfreithiol Rhanbarthol. Bydd paratoi'r cytundeb a symud ymlaen i'w gwblhau'n ffurfiol hefyd yn ddibynnol ar gynnwys a pharatoi'r dogfennau megis Penawdau'r Telerau a'r cynnig terfynol. Bwriedir i GA2 gael ei gwblhau law yn llaw â chymeradwyo a derbyn y cynigion ariannu a bydd yn ddogfen allweddol wrth roi sicrwydd i'r holl randdeiliaid ynghylch cywirdeb a chadernid trefn lywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae darpariaeth yng nghyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol yng nghyswllt GA2.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhaglen arfaethedig i greu a chwblhau GA2. Bydd yn gytundeb cyfreithiol rhwng y partneriaid. Fel y nodwyd, bydd yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu cytûn ynghyd â diffinio rolau, cyfrifoldebau ac ymrwymiad y partneriaid yn gyffredinol ac yn unigol.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim wedi'u hadnabod.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim wedi'u hadnabod.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Amherthnasol

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Amserlen Arfaethedig

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Paratowyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Rwy'n gwerthfawrogi bwriad yr adroddiad yma i reoli'r rhaglen waith ar gyfer sefydlu ail Gytundeb Llywodraethu, gydag amserlen fydd yn crisialu gwybodaeth ariannol erbyn Hydref 2019, pryd bydd partneriaid yn ystyried cylch gwaith cyllideb 2020/21."

**Atodiad 1**
**Amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi GA2**

| Gweithred | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Cynhadledd gychwynnol gyda Pinsents** | 13 Mai 2019 | 13 Mai | Cyfreithiol |
| **Cylchredeg rhestr o faterion cychwynnol a Holiadur** | 20 Mai 2019 | 14 Mehefin 2019 | Cyfreithiol |
| **Comisiynu ffrydiau gwaith / arweiniad penodol gan y Grŵp Gweithredol Cyllid a'r Partneriaid** | 20 Mai 2019 | I'w benderfynu fel rhan o ffrwd gwaith o fewn amserlen gytûn yn seiliedig ar y Rhaglen Waith gyffredinol. | Arbenigedd Cyfreithiol a pherthnasol |
| **Adolygu'r ymatebion a pharatoi drafft gweithiol cychwynnol o GA2** | 17 Mehefin 2019 | 30 Mehefin 2019 | Cyfreithiol |
| **Adrodd i'r Grŵp Gweithredol / Gweithdy** | 5 Gorffennaf 2019 | 5 Gorffennaf 2019 | Cyfreithiol |
| **Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Uchelgais** | 19 Gorffennaf 2019 | 19 Gorffennaf 2019 | |
| **Paratoi ail ddrafft diwygiedig o GA2** | Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r cytundeb. | | Cyfreithiol |
| **Sicrhau cytundeb ar y drafft terfynol** | Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r cytundeb. | | Cyfreithiol |
| **Paratoi drafft terfynol ar gyfer cadarnhad a chymeradwyaeth.** | Bydd angen i hyn fod yn unol â'r Rhaglen Waith gyffredinol | | Cyfreithiol |
| **Cwblhau'r Cytundeb** | Yn unol â'r broses gymeradwyo ar gyfer y Cais Twf. | | Cyfreithiol |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 17 MAI 2019

**TEITL:** *Bwrdd Cyflawni Busnes*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu rôl a chylch gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes (y Grŵp Cyflawni Busnes fel y'i gelwir ar hyn o bryd) yn ffurfiol. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r broses recriwtio arfaethedig i ddethol Cadeirydd ac Aelodau o'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

1.2. Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn rhan annatod o'r trefniadau llywodraethu ac mae wedi'i sefydlu er mwyn datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd, yn cynnwys y Cynllun Twf.

1.3. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn cynghori ac yn herio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn uniongyrchol, a fydd yn rhwym i ystyried ei gyngor. Rhaid iddo fod yn allblyg ac â chysylltiadau da y tu hwnt i'r rhanbarth. Bydd hyn yn galluogi iddo ddod ag arbenigedd a buddsoddiad posib i'r rhanbarth, a thynnu ar brofiad ei aelodau.

1.4. Yn ogystal, bydd gan y Bwrdd rôl hanfodol wrth gyflawni prosiectau strategol a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd yn monitro cynnydd a deilliannau ac yn ystyried ffyrdd y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd a chyflogaeth.

1.5. Sefydlwyd y Bwrdd yn ei ffurf gysgodol dros chwe mis yn ôl ac eisoes mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a'r Achosion Busnes Amlinellol unigol. Bellach, y nod yw ffurfioli'r trefniadau a sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn gadarn fel rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu i gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd.

1.6. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y drafodaeth yn ystod cyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar 12 Ebrill 2019, ynghyd â thrafodaeth gyda'r ddwy Lywodraeth ar y cynnig.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd Cyflawni Busnes.

2.2. Cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio.

2.3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dewis ac recriwtio Aelodau'r Bwrdd fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio unwaith y bydd y Cadeirydd wedi'i benodi.

2.4. Cadarnhau'r defnydd o hyd at £20,000 y flwyddyn o gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gefnogi'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

2.5. Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i sefydlu y pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol ar adroddiad.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Yn ystod cyfarfod diwethaf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, trafodwyd y papur ynghylch y Bwrdd Cyflawni Busnes. Cytunodd y Bwrdd i ohirio gwneud penderfyniad ar y mater hyd nes bod adborth wedi'i dderbyn gan y ddwy Lywodraeth.

4.2. Bellach, mae'r ddwy Lywodraeth wedi rhoi sylwadau ar y cyd i'r Bwrdd Uchelgais yng nghyswllt y cynigion, sydd wedi'u nodi isod:

| Cyfeirnod | Adborth Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU | Ymateb |
|---|---|---|
| | Nid ymddengys bod rôl y Bwrdd yn ymwneud â "chyflawni", fel y nodir. Beth yw ei rôl wrth gyflawni? | Mae'r papur yn ymgorffori sut bydd gan y Bwrdd rôl o fewn cyflawni. Nodi sut bydd y Bwrdd yn cefnogi wrth herio'r Achosion Busnes Amlinellol ac yna'r Achosion Busnes Llawn, ynghyd â monitro cyflawni'r prosiectau. Gweler 2.1 |
| | Beth fyddai'n digwydd pe byddai'r Bwrdd Sector Preifat yn anghytuno gyda'r Bwrdd Uchelgais ynghylch prosiect, ei sgôp, sut caiff ei gyflawni ac ati? | Gweler 1.12. |
| 1.1. | Awgrymu dileu'r frawddeg ynghylch Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy - mae'n tynnu oddi ar bwysigrwydd y Bwrdd. | Y frawddeg wedi'i newid. |
| 1.3. | Dylai hwn fod yn gryfach - awgrymu rhywbeth ynghylch herio'r cyd-bwyllgor, a dileu 'mynegi anghenion busnesau' sy'n amwys. | Mae'r pwynt hwn wedi'i addasu i adlewyrchu’r sylwadau. Gweler 1.3 |
| 1.6. | Dylai Uwch Swyddogion/y sawl sy'n gwneud Penderfyniadau fod ar y Bwrdd o'r cwmnïau a gaiff eu cynrychioli | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.6 bellach. |
| 1.7. | Dylai rôl y Bwrdd fod yn un ddwy-ffordd - ynghyd â nodi'r cyfleoedd y dylai'r Bwrdd Uchelgais/Cynllun Twf eu cyflawni. | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.7 bellach. |
| 1.11. | Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Mae'r rhyng-berthynas rhwng y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd yn bwysig yn GA2 fodd bynnag, a dylid ei gadw yma. | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.11 bellach. |
| 2.1. | Dylai ganolbwyntio ar becyn y Cynllun Twf - ac ar oruchwylio cyflawni'r Cynllun Twf a chynghori / | Mae'r adran hon bellach yn canolbwyntio ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | herio'r Cyd-bwyllgor, yn enwedig yng nghyswllt prosiectau yng 'ngham 2'.<br>Wrth gwrs, mae'r cynllun yn un gydran o agenda economaidd ehangach, fodd bynnag, mae llawer o bethau eraill yma (rôl eirioli yn hyrwyddo'r rhanbarth ar gyfer mewn-fuddsoddiad, gwaith ar y weledigaeth twf, cynlluniau Llywodraeth Cymru, gweithio gyda CBI Gogledd Cymru, gweithio gyda Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, ac ati) - sy'n tynnu oddi ar ei rôl a'i bwysigrwydd. Awgrymu canolbwyntio ar lai.<br>Dylai nodi y bydd gan y Bwrdd rôl i'w chwarae wrth fanteisio i'r eithaf ar y cynllun ar gyfer y rhanbarth (cyd-gysylltu / yn fwy na chyfanswm y rhannau sydd ynddo), sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r sector preifat ar gyfer y cynllun. | Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. |
| 2.1. | Hefyd yn unol â'r sylw cyffredinol uchod, nid yw'n 'fwrdd cyflawni' fel y mae ar hyn o bryd.<br>Mae angen i'r Bwrdd fod yn medru herio prosiectau a chynigion y Cynllun Twf, a chael dannedd h.y. Ni all y Bwrdd Uchelgais anwybyddu ei gyngor. A ellir nodi hyn yma?<br>Dylai nodi y bydd yn ystyried Achosion Busnes Llawn cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor / eu hanfon i'r llywodraethau. | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.12 bellach. |
| 3.3. | Mae un diwrnod yr wythnos ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd yn ymddangos yn uchel, a gallai eithrio ymgeiswyr da nad oes ganddynt yr amser yma. | Nodwyd. Nodir y bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio ar draws y tymor. |
| 3.8. | Mae angen nodi'n glir bod angen i'r ddwy lywodraeth gymeradwyo'r cadeirydd - a bod ganddynt feto, nid bod ymgynghoriad ar y mater yn unig. | Mae'r fersiwn diwygiedig yn nodi 'y bydd angen i'r ddwy lywodraeth gymeradwyo penodiad y cadeirydd'. |
| 3.10. | Mae angen nodi'n glir bod angen i gyfansoddiad gweddill y Bwrdd ddigwydd mewn ymgynghoriad â'r llywodraethau. | Gweler 4.5. |
| 6.1. | Eto, pa 'ddannedd' sydd gan y Bwrdd? Fel y mae wedi'i sgopio ar hyn o bryd, gall y Bwrdd Uchelgais ddewis anwybyddu ei argymhellion, heb dystiolaeth na sylw. A ellir rhoi sylw i hyn? | Gweler 1.12. |

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cost flynyddol arfaethedig cefnogi'r Cadeirydd, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflawni Busnes, yw £20,000 y flwyddyn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais. Ni fydd ganddo unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig nodi y bydd y penderfyniad i greu Bwrdd Cyflawni Busnes fel corff ymgynghorol yn arwain at ddisgwyliadau

cyfreithlon y bydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried barn y Bwrdd Cyflawni Busnes wrth wneud penderfyniadau. Rhoddir sylw i hyn hefyd gan benodiad arfaethedig y Cadeirydd fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais.

6.2. Bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais fod yn fodlon y gall gwrdd â holl gostau'r Bwrdd Cyflawni Busnes o'i Gyllideb Flynyddol.

6.3. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ar amodau a thelerau arfaethedig y rheini a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Ymgymerir â'r broses recriwtio gan gydymffurfio â dyletswyddau'r Partneriaid dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Cytunodd cyfarfod y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 29 Mawrth 2019 y dylid cyflwyno'r adroddiad hwn i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er ystyriaeth.

9.2. Mae ymgynghoriad wedi bod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Bwrdd Cyflawni Busnes |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, mae hyn yn rhoi'r Bwrdd Cyflawni Busnes ar Sylfaen ffurfiol fel rhan o strwythur datblygol y prosiect. Mae'n amlinellu'n briodol broses a gaiff ei llywodraethu gan broses benodiadau dryloyw a theg ac mae'n adlewyrchu rôl allweddol y corff wrth lywodraethu'r prosiect. Adroddir hefyd ar ganlyniadau' r ymgynghoriad gyda'r Llywodraethau ac mae 'r ddogfen addasedig yn cynnig ymateb i'r rhain o fewn fframwaith y Bwrdd. Fel yr adroddwyd, bydd y trefniadau hyn yn sail ar gyfer ymgorffori i'r ail Gytundeb Llywodraethu, GA 2."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Gall y Bwrdd benderfynu defnyddio £20,000 o'i gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' ar gyfer ariannu costau'r Bwrdd Cyflawni Busnes, gan fydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at ddatblygu prosiectau. Yn unol â chais y Bwrdd Uchelgais ar 12 Ebrill, nodaf fod rhan 6.2 o'r adroddiad yma'n manylu ar becyn cydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes."

# BWRDD CYFLAWNI BUSNES

## 1. Rôl a Chylch Gwaith

1.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth, ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy (y corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n cynrychioli Busnesau). Bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth.

1.2. Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

1.3. Bydd y Bwrdd yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion. Disgwylir i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sefydlu ffyrdd i gyflawni'r cynigion hyn.

1.4. Mae'r Bwrdd yn rhan allweddol o gyfarpar llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:

- Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phecyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

1.5. Mae'r Bwrdd wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.

1.6. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 9 a 12 aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ac arbenigwyr sector o fusnesau allweddol o'r sectorau economaidd twf a sylfaenol ledled y rhanbarth. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gynnwys swyddogion uwch sy'n gwneud penderfyniadau o sefydliadau a gynrychiolir.

1.7. Bydd ei raglen waith (a fydd wedi'i gosod mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Caiff y cynllun busnes blynyddol a'r cynigion a gyflwynir gan y Bwrdd eu hystyried yn ffurfiol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn eu hymgorffori o fewn ei raglen waith.

1.8. Bydd yn cryfhau proffil llais a mewnbwn busnesau i'r Cynllun Twf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei yrru a'i gyflawni gan fusnes a diwydiant, er ei fod yn cael ei arwain yn wleidyddol.

1.9. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod buddsoddiad mewn twf yn cael ei hysbysu a'i siapio gan fusnesau i fusnesau.

1.10. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Uchelgais bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu a'i phenodi'n gyhoeddus.

1.11. Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gyd-berthynas gyda'r Cyd-bwyllgor ei gwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Caiff cyfansoddiad ac rôl y Bwrdd a unrhyw newidiadau ei gytuno gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

1.12. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ystyried yn llawn a derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd unrhyw argymhellion ffurfiol gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei cyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd gyda ymateb a rhesymau yn cael ei cofnodi a'i cyfathrebu.

**2. Cyfrifoldebau Allweddol**

2.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gyfrifol am:

- Adolygu a siapio'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
- Herio ac adolygu'r portffolio o brosiectau a gynigir o fewn y Cynllun Twf ac ystyried a herio'r Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau unigol;
- Canolbwyntio ar gyflawni prosiectau a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a gataleiddir gan y Cynllun Twf, a'u harwain;
- Darparu rôl eirioli, gan hyrwyddo'r rhanbarth fel prif leoliad ar gyfer buddsoddwyr ac ymwelwyr a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwerth ac ansawdd mewnfuddsoddi;
- Rhoi cyngor ar ymyrraeth arfaethedig gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

2.2. Bydd gan y Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth fanteisio i'r eithaf ar effaith y cynllun ar gyfer y rhanbarth, gan sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol o'r sector preifat ar gyfer y Cynllun.

2.3. Bydd y Bwrdd yn gweithio yn agos ac mewn partneriaeth gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**3. Cadeirydd y Bwrdd**

3.1. Mae Cadeirydd dros dro wedi bod yn weithredol ers mis Rhagfyr 2018.

3.2. Caiff y Cadeirydd ei benodi ar sail tymor penodol o ddwy flynedd, gyda nifer y tymhorau wedi'i gyfyngu i ddau.

3.3. Tybir y byddai'r ymrwymiad amser, er yn hyblyg, yn un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, ond bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio dipyn ar draws y tymor.

3.4. Bydd y rôl yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel sy'n adlewyrchu arwyddocâd y rôl.

3.5. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:

- Arwain y Bwrdd, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau;
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, casglu barnau sydd wedi'u mynegi gan bob grŵp rhanddeiliaid a, lle bo angen, dod i gonsensws;

- Cyfathrebu a chynrychioli argymhellion y Bwrdd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Bod yn arweinydd "busnes" a phencampwr dros y rhanbarth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

3.6. Dylai’r Cadeirydd feddu ar y cefndir a'r profiad a ganlyn:

- Bod yn aelod o gymuned fusnes y sector preifat;
- Meddu ar brofiad arweinyddiaeth uwch helaeth;
- Cael rhwydwaith eang o gysylltiadau cyhoeddus, preifat ac yn y llywodraethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r rhanbarth.

3.7. Darperir cefnogaeth strategol, ymchwil, polisi a chyfryngau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).

3.8. Bydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymeradwyo penodiad y Cadeirydd. Caiff y broses ei goruchwylio gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn unol a cymeradwyaeth Llywodraeth Prydain ac Llywodraeth Cymru bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3.9. Caiff y Cadeirydd ei benodi yn unol â'r safonau cydnabyddedig ar gyfer penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys hysbyseb agored.

**4. Dethol Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes**

4.1. Rhaid i'r broses ddethol fod yn agored ac yn dryloyw, gan ddefnyddio'r meini prawf dethol a restrir isod.

4.2. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd y Panel yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r ymgeiswyr mwyaf addas i'w penodi.

4.3. Caiff rôl Aelodaeth y Bwrdd ei hysbysebu'n gyhoeddus i annog ystod eang o geisiadau. Bydd cyfres gyfunol o sgiliau a phrofiad y Bwrdd yn ystyriaeth allweddol. Bydd proses ymgeisio a fydd yn caniatáu i aelodau arfaethedig gael eu henwebu.

4.4. Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau a ganlyn:

- Dealltwriaeth o economi'r Gogledd a gwerthfawrogiad o gyfleoedd yn y sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth
- Rhwydwaith eang o gysylltiadau ledled y DU ac yn rhyngwladol;
- Profiad o ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol er mwyn rhoi cyngor safonol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau;
- Profiad o ddarparu cyngor diduedd am brosiectau a mentrau, yn benodol yng nghyswllt eu hyfywedd a'u heffaith ar faterion cyflogaeth ac economi.

4.5. Ymgymerir â'r broses mewn ymgynghoriad â'r ddwy Lywodraeth.

4.6. Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys yn gyffredinol fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

**5. Gwrthdaro Buddiannau**

5.1. Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan Gôd yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

**6. Camau Nesaf**

6.1. Bydd y camau nesaf yn cynnwys hysbysebu rôl y Cadeirydd. Bydd y broses fel a ganlyn:

- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cymeradwyo proses recriwtio arfaethedig, yn seiliedig ar y broses sydd wedi'i hamlinellu uchod;
- Hysbysebu'r swydd am bythefnos;
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ymgymryd ag asesiad rhestr fer, ac yn cynnal cyfweliadau;
- Ymgynghori â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y rhestr fer arfaethedig;
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'r ddwy Lywodraeth, yn cymeradwyo penodiad yr ymgeisydd a ffafrir.

6.2. Cost flynyddol arfaethedig cefnogi'r Cadeirydd, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflawni Busnes, yw £20,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar adolygiad o Bartneriaethau Menter Lleol y DU a Phartneriaethau Twf eraill. Caiff cydnabyddiaeth y Cadeirydd ei drafod, ond bydd wedi'i gyfyngu gan yr £20,000 o adnoddau sydd wedi'u clustnodi i'r Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn cynnwys graddfa dyddiol o lwfans mynychu ynghyd a chostau teithio yn unol a'r hyn sy'n gymwys i aelodau cyfetholedig pan ar bwyllgorau megis Pwyllgor Safonau. Bydd gweddill aelodau'r Bwrdd yn gymwys i gael ad-daliad o gostau teithio.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 Mai 2019**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Is-grŵp Twristiaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru* |
| **AWDUR:** | *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*<br>*Jane Richardson, Cyfarwyddwr Strategol yr Economi a Lle, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Amlinellu'r cyfle a'r buddion o sefydlu cyswllt rhwng Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gan fod twristiaeth wedi'i adnabod fel un o'r themâu allweddol o fewn y Weledigaeth Twf, mae'r adroddiad hwn yn cynnig y dylai'r Fforwm fod yn is-grŵp o'r Bwrdd.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cefnogi'r egwyddor bod y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn ffurfio perthynas ffurfiol gyda'r Bwrdd.

2.2. Bod statws a swyddogaeth y Fforwm yn cael eu datblygu fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu i'w sefydlu yng Nghytundeb Llywodraethu 2.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Mae dogfennau cynnig a gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn nodi'n glir y dymuniad i 'ddatblygu a lledaenu enw da’r Gogledd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiannau seiliedig ar y tir a thwristiaeth ac yn sefydlu'n hunain yn gadarn fel prif leoliad twristiaeth antur y DU'. Ar gyfer sectorau a themâu allweddol eraill o fewn y Cynllun Twf, megis digidol, trafnidiaeth a sgiliau, mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi naill ai gan is-bwyllgorau ffurfiol neu is-grwpiau llai ffurfiol. Gall y grwpiau a'r pwyllgorau hyn ddarparu cyngor a gwybodaeth arbenigol i'r Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae bwlch yn nhermau darparu'r cyngor arbenigol hwn ar brosiectau a chynlluniau twristiaeth.

3.2. Er bod bwlch yn nhermau cyswllt twristiaeth uniongyrchol i'r Bwrdd, mae grŵp rhanbarthol yn bodoli er mwyn: cyfuno ac adrodd am anghenion o fewn y sector, blaenoriaethu strategaethau a gweithgareddau rhanbarthol, a darparu safbwynt twristiaeth rhanbarthol i Lywodraeth Cymru. Y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yw hwn. Cynigir, felly, y dylid sefydlu cyswllt rhwng y Fforwm hwn a'r Bwrdd Uchelgais er mwyn cryfhau a thanategu penderfyniadau rhanbarthol a wneir ynghylch buddsoddiadau a datblygiadau twristiaeth o fewn cyd-destun y Weledigaeth Twf economaidd.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Sefydlwyd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2015 yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod â'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol i ben. Mae'n un o bedwar

yng Nghymru. Mae'n cynnwys Cadeiryddion chwe Phartneriaeth Cyrchfan Gogledd Cymru; uwch swyddog twristiaeth o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol ynghyd â chynrychiolwyr eraill o'r sector twristiaeth. Mae'n rhoi safbwynt rhanbarthol ar berfformiad, gweithgareddau a chyfleoedd twristiaeth i Croeso Cymru ac mae'n lledaenu gwybodaeth a nodiadau briffio gan Croeso Cymru i'r rhanddeiliaid twristiaeth lleol.

4.2. Mae twristiaeth yng Ngogledd Cymru werth £3.12 biliwn y flwyddyn, gyda bron i 30 miliwn o bobl yn ymweld â'r rhanbarth yn flynyddol (data STEAM 2017). Yn rhai rhannau o'r rhanbarth, mae dros 1 o bob 4 person yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol o fewn twristiaeth. Mae'r effaith economaidd, niferoedd yr ymwelwyr, gwariant yr ymwelwyr a'r ffigyrau cyflogaeth cyfwerth ag amser llawn yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y Gogledd. Mae gan dwristiaeth rôl sylweddol i'w chwarae yn yr economi rhanbarthol a dyma'r rheswm pam bod ein huchelgais i ddatblygu a hyrwyddo ein henw da fel canolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth yn un o egwyddorion allweddol y Cynllun Twf.

4.3. Dros y pum neu chwe mlynedd diwethaf, mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn y diwydiant twristiaeth yn y Gogledd. Mae buddsoddiadau'r sector preifat wedi'u cataleiddio a'u cefnogi gan ystod o grantiau gan Croeso Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyfanswm o £37.4m mewn twristiaeth yn y rhanbarth ers 2013. Mae hyn yn cynnwys:

- Y rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth, sy'n defnyddio £7.5m o arian yr UE i gyflawni cyfanswm o £19.3m o fuddsoddiad ar draws pum prosiect strategol yn y Gogledd: Glan y Môr Bae Colwyn; Venue Cymru; Castell Caernarfon; Glannau Caernarfon a Phorth Ynys Gybi.
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth Llywodraeth Cymru (TAIS), sydd wedi cefnogi 20 o brosiectau tir y cyhoedd ledled y Gogledd, sy'n dod i gyfanswm o £1.91 miliwn, yn cynnwys: parcio i goetsis yn Harlech; parcio i ymwelwyr ym Mhontcysyllte; arwyddion ymwelwyr yng Nghonwy; llwybr beicio newydd yng Nghoed y Brenin a gwelliannau i dri lleoliad allweddol yn Llangefni.
- Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) wedi buddsoddi dros £14.4m mewn busnesau yn y sector preifat i gyflawni cynnyrch o safon uchel sydd wedi newid y canfyddiad o'r Gogledd. Mae'r rhain yn amrywio o brosiectau sylweddol megis Zip World a Surf Snowdonia i lety o safon uchel megis Caer Rhun a Phlas Weunydd.
- Yn ogystal, mae arian refeniw Croeso Cymru wedi cefnogi 17 o brosiectau Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) yn y Gogledd sydd werth £1.1m a 23 o brosiectau'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) sy'n dod i gyfanswm o £727k. Mae'r prosiectau llwyddiannus hyn wedi gweld lefelau digynsail o gydweithio rhanbarthol ledled chwe sir y Gogledd.

4.4. Gan nad oes unrhyw gyswllt rhwng Croeso Cymru a'r Bwrdd Uchelgais, na rhwng y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Uchelgais ychwaith, mae'r buddsoddiad hwn wedi digwydd heb unrhyw ddylanwad, trafodaeth na gweledigaeth gan y Bwrdd. Mae rhestr o brosiectau gwerth £7.5 miliwn yn y Gogledd y mae disgwyl iddynt gael eu cymeradwyo o fewn y chwe mis nesaf. Unwaith eto, er bod y Bwrdd Uchelgais yn negodi buddsoddiad sylweddol i'r rhanbarth drwy'r Cynllun Twf, mae'r buddsoddiad twristiaeth hwn yn cael ei gyflawni ar lwybr cyfochrog, heb gysylltiad.

4.5. Yn ogystal â phrosiectau a buddsoddiadau, mae ystod eang o gynlluniau sy'n cael effaith ar economi twristiaeth y Gogledd nad ydynt yn cael eu bwydo drwy'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau ynghylch sut rydym yn cynnal safon ein hatyniadau yng nghyd-destun llai o arian gan Awdurdodau Lleol; sut allwn wneud twristiaeth yn gynaliadwy yn ein hardaloedd mwyaf poblogaidd a sensitif megis Eryri; a ph'un a oes dymuniad i gasglu cynnyrch ariannol uniongyrchol o'r miliynau o ymwelwyr â'r Gogledd drwy ardoll twristiaeth. Mae'r holl faterion hyn yn berthnasol ac yn bwysig i'r economi rhanbarthol ac mae gan y cyfan y potensial i ddylanwadu

ar agenda'r Bwrdd Uchelgais, ond, maent yn cael eu trafod ar wahân ac ymhell o'r trafodaethau ehangach y mae'r Bwrdd Uchelgais yn eu cael am dwf economaidd.

4.6. Yr ateb symlaf yw creu cyswllt rhwng y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol, lle cynhelir y trafodaethau hyn, a'r Bwrdd Uchelgais. Ni fyddai'n briodol troi'r Fforwm yn is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd. Mae'r Fforwm yn gyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector twristiaeth yn y Gogledd felly mae'n rhaid iddo gadw ei atebolrwydd drwy Croeso Cymru. Fodd bynnag, mae cynsail eisoes yn y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol am grŵp fydd ag atebolrwydd deuol i Lywodraeth Cymru ac i'r Bwrdd. Felly, y cynnig yw y dylai'r Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol fod yn is-grŵp cydnabyddedig o'r Bwrdd Uchelgais, ar yr un egwyddor â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. Byddai'n adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd gan hysbysu trafodaethau economaidd ehangach, a chwarae rôl ddefnyddiol wrth adnabod, gwerthuso a blaenoriaethu prosiectau a ellir eu hariannu drwy'r Cynllun Twf.

4.7. Mae'r Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol wedi trafod y cyfle hwn yn ei ddau gyfarfod blaenorol. Ym mis Mawrth, edrychodd ar gylch gorchwyl y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gan gytuno y byddai'n derbyn telerau tebyg. Mae Croeso Cymru wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi cyswllt rhwng y Fforwm a'r Bwrdd Uchelgais ac mae'n gweld manteision clir i'r Bwrdd dderbyn diweddariadau ar ddatblygiadau o fewn y sector twristiaeth rhanbarthol.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim ar hyn o bryd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. O dan ddarpariaethau Cytundeb Llywodraethu 1, rhagwelwyd y byddai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn sefydlu pum Is-bwyllgor thematig fel Is-fyrddau sef; Digidol, Sgiliau a Chyflogaeth, Trafnidiaeth, Menter ac Arloesi a Safleoedd ac Eiddo. Darparwyd ar gyfer cylch gorchwyl yr Is-bwyllgorau hyn yn GA1 ac y byddent yn is-bwyllgorau ffurfiol o aelodau etholedig. Cydnabuwyd hefyd y gallai'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, fel partneriaeth bresennol anffurfiol gyda rôl sgiliau gyfatebol, gael ei hymgorffori i'r trefniadau llywodraethu fel dewis amgen i sefydlu Is-fwrdd yn ffurfiol.

6.2. Hefyd, mae GA1 yn darparu i'r Bwrdd Uchelgais allu ffurfio is-bwyllgorau a grwpiau eraill i gefnogi ei weithgareddau. Gan fod y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn gorff presennol gyda'i gylch gorchwyl a'i swyddogaethau ei hun, gellir sefydlu'r egwyddor o sefydlu rôl a pherthynas ffurfiol i'r Fforwm ac y gallai manylion gweithredu gael eu datblygu fel rhan o fodelu llywodraethu o amgylch GA2.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim ar hyn o bryd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae'r cynnig wedi'i drafod a'i gefnogi gan y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019. Mae wedi'i drafod hefyd ag Uwch Swyddogion yn Croeso Cymru sy'n gefnogol o'r cysyniad.

9.2. Cymeradwyodd y Grŵp Swyddogion Gweithredol y cynnig hwn ar 03/05/2019.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Mae'r trefniadau llywdoraethiant yn mynd i ddatblygu yn anorfod a bydd cyfle yn ystod paratoi GA2 i adolygu'r model ar sail profiad ac anghenion. Fodd bynnag mae'n bwysig fod y datblygu yma yn digwydd mewn modd rhesymegol sydd yn creu strwythur pwrpasol ac effeithiol. Mae'r argymhelliad yn gosod cyfeiriad tra'n sicrhau fod cyfle i osod y Fforwm a'r berthynas arfaethedig mewn lle priodol o fewn y trefniadau."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Cymeraf bydd gan yr 'is-grŵp' yma ddim grym annibynnol i wario / ymrwymo adnoddau (ac eithrio arian gallasai'r Bwrdd Uchelgais ddyrannu iddo), a bydd yn gweithredu'n anffurfiol (heb y gefnogaeth fyddai is-bwyllgor ffurfiol angen), gan adrodd yn ôl yr angen i y Bwrdd Uchelgais."

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**17/05/2019**

**Teitl:** Adroddiad Alldro 2018/19 a'r Ffurflen Flynyddol

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda sefyllfa alldro terfynol ar gyfer 2018/19 ac i dderbyn cymeradwyaeth o'r Ffurflen Swyddogol Flynyddol ar gyfer y cyfnod o ddau fis o 1 Chwefror i 31 Mawrth 2019.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

2.1 I nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1 a 2).

2.2 I nodi a derbyn Ffurflen Swyddogol Flynyddol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19 (Amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol o 15 Mehefin 2019. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-bwyllgor (Atodiad 3).

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 I hysbysu'r Cyd-bwyllgor o'u sefyllfa ariannol ar gyfer 2018/19, ac i gydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas a chwblhau'r Ffurflen Flynyddol.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Dyddiad cychwyn ffurfiol y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd oedd 1 Chwefror 2019. Felly, mae'r trafodion gwariant ac incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 wedi eu hadnabod yn ffurfiol o'r dyddiad yma. Mae'r Adroddiad Alldro (Atodiad 1) a'r Ffurflen Flynyddol (Atodiad 3) ar gyfer y cyfnod o ddau fis o 1 Chwefror 2019 i 31 Mawrth 2019.

4.2 Mae'r trafodion incwm a gwariant ar gyfer Chwefror a Mawrth 2019 yn cynrychioli'n bennaf parhad o'r trefniadau oedd yn bodoli i gefnogi gwaith y cyn drefniadau cysgodol, ynghyd â chostau cychwynnol y Cyd-bwyllgor. Mae rhai elfennau, fel sydd wedi eu dynodi yn y Cyfrif Incwm a Gwariant (Atodiad 1) wedi eu dosrannu ar gyfartaledd ar gyfer dau fis o'r flwyddyn, tra bod gweddill o'r anfonebau yn seiliedig ar wir wariant yn ystod y cyfnod.

4.3 Fel rhan o'r adroddiad Cyllideb 2019/20 a gafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 15 Mawrth 2019, derbyniwyd cymeradwyaeth i drosglwyddo unrhyw danwariant o'r cyn drefniadau cysgodol i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Derbyniwyd cymeradwyaeth yn ogystal i unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn neilltuol a fydd ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

4.4 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Deloitte, archwiliwr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-bwyllgor ar 19 Gorffennaf 2019.

4.5 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi 2019.

4.6 Tra nad yw'n ofyniad statudol, mae'r incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 wedi ei gynnwys (Atodiad 2) er gwybodaeth.

**5. Goblygiadau Ariannol**

5.1 Ar 1 Chwefror 2019, trosglwyddwyd tanwariant o £333,977 o'r cyn-drefniadau cysgodol i'r Cyd-bwyllgor.

5.2 Dangosodd y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2019 bod tanwariant o £336,213 ac mae hwn wedi ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn neilltuol a fydd ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

5.3 Mae Atodiad 1 yn dangos y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am y cyfnod 1 Chwefror i 31 Mawrth 2019, ac mae rhain yn cyfateb i'r ffigyrau yn y Ffurflen Flynyddol sydd i'w gweld yn Atodiad 3.

5.4 Mae Atodiad 2 yn dangos y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am y flwyddyn ariannol 2018/19 sy'n cyfuno y cyn drefniadau cysgodol a chyfrifon y Cyd-bwyllgor.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

**7. Goblygiadau Staffio**

7.1 Dim yn ystod 2018/19.

**8. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

8.1 Adroddwyd ar y sefyllfa tanwariant i'r Grŵp Gweithredol ar 3 Mai 2019.

**9. Atodiadau**

Atodiad 1 – Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am y cyfnod 1 Chwefror – 31 Mawrth 2019.

Atodiad 2 – Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19.

Atodiad 3 – Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 (Amodol ar Archwiliad Allanol), ond yn cynnwys sylwadau Archwilio Mewnol.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Atodiad 1**

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 01.02.19 - 31.03.19**

| | £ | |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| ***Rheoli Rhaglen*** | | |
| Ad-daliad Rheoli Rhaglen/Datblygu | 15,608 | * |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiect | 28,328 | * |
| Costau Prosiect Digidol | 2,778 | * |
| Cysylltiadau Cyhoeddus a Cyfathrebu | 2,100 | |
| Cyfarfodydd | 1,699 | |
| Cyfieithu ac Argraffu | 4,144 | |
| | **54,657** | |
| ***Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol*** | | |
| Dim ad-daliadau yn y flwyddyn | 0 | |
| | **0** | |
| ***Cyd-bwyllgor*** | | |
| Ffi Archwilio Allanol | 500 | |
| | **500** | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **55,157** | |
| **Incwm** | | |
| Balans â drosglwyddwyd 01.02.19 | (333,977) | |
| ***Cyfraniadau 2018/19:-*** | | |
| Llywodraethau Lleol | (28,448) | * |
| Addysg Bellach ac Uwch | (16,667) | * |
| Tanwariant Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | (12,278) | * |
| **Cyfanswm Incwm** | **(391,370)** | |
| **Cyfanswm (Incwm)/Gwariant Net** | **(336,213)** | |

| | |
|---|---|
| Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 01/02/19 | 0 |
| Symudiad Net | (336,213) |
| **Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/19** | **(336,213)** |

** Yn cynnwys symiau wedi eu dosrannu ar gyfartaledd am 2 fis o'r flwyddyn.*

**Atodiad 2**

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2018/19 (01.04.18 - 31.03.19)**

| | £ |
|---|---|
| **Gwariant** | |
| ***Rheoli Rhaglen*** | |
| Ad-daliad Rheoli Rhaglen/Datblygu | 91,616 |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiect | 289,520 |
| Costau Prosiect Digidol | 25,000 |
| Cysylltiadau Cyhoeddus a Cyfathrebu | 5,950 |
| Cyfarfodydd | 11,906 |
| Cyfieithu ac Argraffu | 16,630 |
| | **440,622** |
| ***Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol*** | |
| Dim ad-daliadau yn y flwyddyn | 0 |
| | **0** |
| ***Cyd-bwyllgor*** | |
| Ffi Archwilio Allanol | 500 |
| | **500** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **441,122** |
| **Incwm** | |
| Cyfraniadau Blwyddyn Flaenorol | (162,634) |
| ***Cyfraniadau 2018/19:-*** | |
| Llywodraethau Lleol | (170,688) |
| Addysg Bellach ac Uwch | (100,000) |
| Tanwariant Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | (73,666) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(506,988)** |
| **Cyfanswm (Incwm)/Gwariant Net** | **(65,866)** |

| | |
|---|---|
| Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 01/04/18 | (270,347) |
| Symudiad Net | (65,866) |
| **Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/19** | **(336,213)** |

# Cyrff llywodraeth leol perthnasol llai yng Nghymru
# Ffurflen Flynyddol i'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2019

## Y BROSES O RAN CYFRIFON AC ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol i is gyd-bwyllgorau sydd ag incwm a gwariant yn llai na £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Bydd yr uned archwilio mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r corff.

→

Bydd y corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Mae llofnod y Cadeirydd yn y blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn tystio i hyn.

Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon y Ffurflen Flynyddol a chopïau o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a:

Naill ai:
Os nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau, yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:
Os oes angen gwneud diwygiadau, yn rhoi gwybod i'r corff am broblemau (gan gynnwys diwygiadau). Bydd y corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei hailardystio a bydd y corff yn ei hailgymeradwyo cyn ei dychwelyd at yr archwilydd. Yna bydd yr archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

**Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran a amlygir mewn coch gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

**CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL**

**Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.**

**Mae'n rhaid i'r pwyllgor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.**

**Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.**

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Datganiadau cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer:

**Enw'r corff:** Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 (£) | 31 Mawrth 2019 (£) | Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol. |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 0 | 391,370 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 0 | 0 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | 0 | -55,157 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 336,213 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr a balansau stoc | 0 | 2,124 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 0 | 356,267 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | 0 | -22,178 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 336,213 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| **1.** Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | ◉ | ○ | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ◉ | ○ | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol. | ◉ | ○ | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ◉ | ○ | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad. | 6, 23 |
| **5.** Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ◉ | ○ | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ◉ | ○ | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff. | 6, 8 |
| **7.** Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ◉ | ○ | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| **8.** Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ◉ | ○ | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/ gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

| | |
|---|---|
| **Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. | **Cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o dan gyfeirnod cofnod: |
| | 17/05/2019 |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw:** DAFYDD L EDWARDS | **Enw:** |
| **Dyddiad:** 09/05/2019 | **Dyddiad:** |

## Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

| | |
|---|---|
| **Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. | **Cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o dan gyfeirnod cofnod: |
| | Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw:** | **Enw:** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

## Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar gyfer:

| |
|---|
| |

### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig ____________________.]

### Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

| | |
|---|---|
| **Enw'r archwilydd allanol:** | |
| **Llofnod yr archwilydd allanol:**<br><br>**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **Dyddiad:** |

* Dileer fel y bo'n briodol.

# Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** Nodwch enw'r corff

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **3.** Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **4.** Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | ◌ | ◌ | ◌ | ◌ | Mewnosodwch destun |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | X | | | | |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | X | | | | |

**Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):**

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| **11.** Nodwch y maes risg | | | | | Mewnosodwch destun |
| **12.** Nodwch y maes risg | | | | | Mewnosodwch destun |
| **13.** Nodwch y maes risg | | | | | Mewnosodwch destun |

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2019.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

### Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| | |
|---|---|
| **Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** angen enw | LUNED FÔN JONES |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** angen llofnod | [signature] |
| **Dyddiad:** dd/mm/bbbb | 09/05/2019 |

# Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

1. Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
2. Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
3. Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
4. Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2018) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2019). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2018 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
5. Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
6. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Pwyllgor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
7. **Mae'n ofynnol i bob pwyllgor anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthych pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
8. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
9. Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
10. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
11. **Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

| Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion | | Cwblhawyd? | |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol** | | **Do** | **Naddo** |
| **Cyfrifon** | A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni? | | |
| | A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2019 yn gyson â Llinell 9? | | |
| **Cymeradwyo** | A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf? | | |
| | A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2019 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth? | | |
| **Pob adran** | A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen? | | |
| | A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. | | |

| Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi | | Do | Naddo |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifon** | A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd? | | |

# ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

FFORDD GWYNEDD

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD
*PUTTING THE PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO*

# CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## 1. Cefndir

1.1 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Y Bwrdd Uchelgais sy'n cyd-gordio cais "Cynllun Twf" ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n ymwneud â thargedu adnoddau sylweddol a phwerau newydd i'r rhanbarth, yn bennaf er mwyn cryfhau'r economi a chreu swyddi.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb y cyfrifon ar ddatganiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2018/19, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4.2 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn weithredol ers y 1af o Chwefror 2019. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng y 1af o Chwefror a 31ain o Fawrth 2019. Cynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.3 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o daliadau eraill â wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.4 Cyflwynwyd cofrestr risg i'r Bwrdd ar y 12fed o Ebrill 2019 sy'n canolbwyntio ar risgiau sy'n codi o'r rhaglen waith cychwynnol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 1af o Chwefror 2019. Adroddir yn chwarterol ar y risgiau i'r Bwrdd Uchelgais ac yn fisol i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.

4.5 Ar gyfer y cyfnod dan sylw, nid oedd y Bwrdd yn cyflogi gweithwyr yn uniongyrchol, ac felly ni chofnodir unrhyw gostau yn erbyn 'costau staff' yn y datganiad. Fodd bynnag, mae 'taliadau eraill' yn cynnwys 70% o gostau amser a chynhaliaeth Cyfarwyddwr y Cyngor am y cyfnod rhwng y 1af o Chwefror a 31ain o Fawrth 2019. Mae'r costau yma wedi eu cynnwys o dan y pennawd 'taliadau eraill' yn gywir a phriodol oherwydd bod y swyddog yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd ac nid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**CYDNABYDDIAETH**

Yr archwiliwr ac awdur yr adroddiad hwn yw:

Bleddyn Rhys
Arweinydd Archwilio
BleddynRhys@gwynedd.llyw.cymru
Est. 34680
01286 682680

Adolygwyd yr adroddiad gan:

Luned Fôn Jones
Rheolwr Archwilio
LunedFonJones@gwynedd.llyw.cymru
Est. 34687
01286 682687

Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

**LUNED FÔN JONES**
**Rheolwr Archwilio**
Mai 2019

**Dosbarthiad:**
Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Pennaeth Cyllid
Uwch Reolwr Cyllid
Cyfrifydd Grŵp
Uwch Gyfrifydd - Adnoddau a Chorfforaethol
Uwch Swyddog Gweithredol
Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 Mai 2019**

**TEITL:** *Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Mae Rhaglen Waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn nodi y caiff Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ei ddatblygu yn ystod Ch2 2019 ar gyfer Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Adolygu a chymeradwyo'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac yn gyd-gysylltiedig.

4.2. Bydd y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn llywio gweithgareddau cyfathrebu Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.3. Ar hyn o bryd, mae gan Radar PR gontract i gyflawni'r gweithgareddau cyfathrebu hyd ddiwedd mis Mehefin 2019. Bydd adnodd pwrpasol o fewn y Swyddfa Rhaglen i gyflawni'r gweithgareddau cyfathrebu.

4.4. Mae ymgysylltu cadarn wedi bod yn thema allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r Weledigaeth Twf a bydd y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn nodi cynllun clir ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol.

4.5. Darparwyd Strategaeth/Cynllun Gwaith Cyfathrebu ar gyfer y cyfnod Ebrill-Rhagfyr 2018 i'r Bwrdd Uchelgais gan Radar PR. Bellach, mae hi'n amserol datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn bwrw ymlaen â'r gweithgaredd PR.

4.6. Mae gwefan y Bwrdd Uchelgais wedi'i sefydlu, a defnyddiwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod #CefnogirCais er mwyn sicrhau edefyn cyson.

4.5. Mae'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn nodi'r isod:

- Amcanion y gweithgareddau cyfathrebu.
- Manylion yr amrywiol randdeiliaid, a sut cânt eu hysbysu.
- Manylion y negeseuon allweddol a'r ymgyrchoedd allweddol - bydd hyn yn esblygu wrth i brosiectau'r Cynllun Twf ddatblygu.
- Manylion y Dull Cyfathrebu a Marchnata, yn nodi'r modd a'r dull o gyfathrebu gyda rhanddeiliaid perthnasol.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae cyllideb o £45,000 wedi'i chynnwys ar gyfer 2019/20 i ddarparu cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus ar gyfer y Weledigaeth Twf.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim ar hyn o bryd.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais ystyried opsiynau ar gyfer darparu'r adnodd cyfathrebu. Unai drwy adeiladu'r adnodd fel rhan o ddyluniad y Swyddfa Rhaglen neu gael cyllideb i gaffael darparwr allanol.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim ar hyn o bryd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'i gymeradwyo gan y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 03/05/2019.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Rwy'n croesawu y Cynllun Cyfathrebu sydd yn darparu ar gyfer cyfathrebu "allanol" ond hefyd cyfathrebu "mewnol" rhwng partneriaid a rhannu gwybodaeth i gefnogi llywodraethu tryloyw ac effeithiol."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Bydd angen Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu parhaus. Cadarnhaf, fel mae paragraff 5.1 uchod yn nodi, fod cyllideb 2019/20 a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y BUEGC yn cynnwys £ 45,000 ar gyfer cyflawni swyddogaethau cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus."

# CYNLLUN CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

## CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac yn gyd-gysylltiedig. Mae ymgysylltu cadarn wedi bod yn thema allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r Weledigaeth Twf a bydd y ddogfen hon yn nodi cynllun clir ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn datblygu ac yn cyflawni Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar y cyd ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn arwain gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer y Cynllun Twf.

Bydd adnodd benodol ar gyfer cyfathrebu, unai fel rhan o’r Swyddfa Rhaglen neu bydd cyllideb mewn lle ar gyfer caffael cefnogaeth allanol. Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn cefnogi cydlynu’r ymgysylltiad ar draws y prosiectau.

Dylai'r holl gyfathrebiadau amlygu agweddau cydweithredu a Gogledd Cymru cysylltiedig.

## AMCANION

- Ymgysylltu'n effeithio'n gyda rhanddeiliaid sector cyhoeddus, preifat, AB ac AU.
- Egluro a hyrwyddo rhaglenni a gyflawnir gan y byrddau allweddol sy'n gyrru'r Cynllun Twf - Trafnidiaeth, Digidol, Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo.
- Hyrwyddo negeseuon allweddol o amgylch y Cynllun Twf, Gweledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth yn y Gogledd.
- Adnabod sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol, a rheoli enw da'r Bwrdd Uchelgais a'r Cynllun Twf ei hun yn y cyfryngau a chyda rhanddeiliaid.
- Egluro'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth ehangach i'r cyhoedd a chynulleidfaoedd sydd wedi'u targedu, gan ennyn cefnogaeth gan fusnesau a sefydliadau yn y rhanbarth.
- Datblygu cyfres o ddigwyddiadau/cynadleddau i hyrwyddo'r Cynllun Twf ac annog y cyhoedd a chymuned fusnes y Gogledd i'w gefnogi.
- Bydd yr holl amcanion cyfathrebu yn cyd-fynd ag amcanion sefydliadol, ac yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

## CYNULLEIDFA DARGED

Mae amrywiol randdeiliaid y mae angen iddynt gael gwybod.

| Cynulleidfa | Sut? |
|---|---|
| Y Cyhoedd | Y Wasg a'r cyfryngau cymdeithasol |
| ACau | Cyfarfodydd ac cyfathrebu wedi'i amseru i ennyn cefnogaeth |
| ASau | Cyfarfodydd ac cyfathrebu wedi'i amseru i ennyn cefnogaeth |
| Aelodau Lleol | Bydd pob partner yn gyfrifol am sicrhau bod eu haelodau yn ymwybodol o'r holl weithgarwch drwy ei trefniadau cyfathrebu Mewnol. |
| Y Sector Preifat | Cyfathrebu mewnol ac allanol |
| Y Sector Cyhoeddus, rhanddeiliaid AB ac AU | Cyfathrebu mewnol ac allanol |
| Sefydliadau Partner | Cyfathrebu wedi'i amseru i ennyn cefnogaeth |
| Trydydd Sector | Cyfathrebu wedi'i amseru i ennyn cefnogaeth |
| Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig | Cyfarfodydd ac cyfathrebu wedi'i amseru i ennyn cefnogaeth |

## PRIF NEGESEUON AC YMGYRCHOEDD

Caiff yr ymgyrchoedd eu datblygu i hyrwyddo'r Weledigaeth Twf:

| Ymgyrch | Dull | Nodiadau |
|---|---|---|
| #BacktheBid<br>#CefnogirCais | Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol<br>Sianeli addas eraill | Defnyddio #CefnogirCais ar yr holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol i sicrhau edefyn cyson. Mae'r holl negeseuon wedi'u darparu'n ddwyieithog, a defnyddir #BacktheBid yn fersiynau Seasneg. Dylid defnyddio'r rhain hyd nes bydd y Cynllun Twf wedi'i sefydlu ac er mwyn cadw'r postiadau gyda'i gilydd a'i gwneud hi'n haws eu holrhain. |
| #northwalesvision<br>#gweledigaethygogledd | Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol | Hashnod newydd ar yr holl negeseuon i sicrhau edefyn cyson wrth symud ymlaen ac wrth i'r Cynllun Twf fod yn ei le, yna mae'r cwbl yn sôn am y Weledigaeth yn hytrach na'r Cais. |

DRAFT

## DULL CYFATHREBU A MARCHNATA

Defnyddir ystod o sianeli i gyfathrebu'r fenter a negeseuon, erthyglau, diweddariadau a gwybodaeth wedi'u hamseru ar gyfer y cyhoedd, rhanddeiliaid a sefydliadau perthnasol, yn cynnwys:

| Modd | Dull | Cynulleidfa | Pryd gaiff ei gyflawni |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd | Cyfarfod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Aelodau'r Bwrdd Uchelgais | Cyfarfodydd misol (trydydd dydd Gwener y mis) |
| | Cyfarfod y Grŵp Gweithredol | Aelodau'r Grŵp Gweithredol | Cyfarfodydd misol (dydd Gwener cyntaf y mis) |
| | Is-bwyllgorau | Aelodau'r Is-bwyllgorau | Cyfarfodydd rheolaidd |
| | Bwrdd Cyflawni Busnes | Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes | Cyfarfodydd rheolaidd |
| | Sesiynau briffio | | Yn ôl yr angen |
| | Ymgysylltiad Gwleidyddol | Aelodau Etholedig<br>ACau ac ASau | Swyddogion cyfathrebu'r Bwrdd Uchelgais a swyddogion cyfathrebu'r gwleidyddion i weithio ar y cyd - datganiad i'r wasg ar y cyd |
| Digidol | Gwefan y Bwrdd Uchelgais | Y Cyhoedd | Darperir diweddariadau rheolaidd ar y wefan yn cynnwys dolenni i bapurau'r Bwrdd Uchelgais a datganiadau i'r wasg. |
| | Cyfryngau Cymdeithasol y Bwrdd Uchelgais (Twitter) | Y Cyhoedd | Postir trydariadau rheolaidd ar faterion yn ymwneud â'r Cynllun Twf ac economi'r Gogledd |
| | Gwefannau / Cyfryngau Cymdeithasol rhanddeiliaid eraill | Y Cyhoedd | Rhannu gwybodaeth o Wefan a chyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Bwrdd Uchelgais |
| | **Safleoedd hyperleol** Wrexham.com, Deeside.com, Cyfryngau Cymdeithasol Môn a mwy | Y Cyhoedd | Datganiadau i'r wasg rheolaidd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyhoeddiadau arbenigol/ar-lein** Life in North Wales, North Wales Living, a mwy | Y Cyhoedd | Datganiadau i’r wasg rheolaidd |
| Digwyddiadau | Cynadleddau | Y Sector Cyhoeddus / Preifat | Bydd y Bwrdd Uchelgais yn trefnu cynadleddau i ddiweddaru ar ddatblygiadau |
| Adroddiadau | Adroddiad(au) Cynnydd | Y Bwrdd Uchelgais | Adroddiadau cynnydd chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais |
| | Adroddiad(au) Cynnydd | Partneriaid | Adroddiadau cynnydd chwarterol i bartneriaid awdurdodau lleol (pwyllgorau craffu), Addysg Uwch ac Addysg Bellach. |
| | Adroddiad Blynyddol | Y Cyhoedd | Adroddiad blynyddol |
| Cyfathrebu mewnol | Mewnrwyd<br>Newyddlenni<br>Gwefannau<br>e-fwletinau. | AB, AU, Awdurdodau Lleol a<br>Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy | Rheolaidd |
| Y Cyfryngau | Y cyfryngau print ac ar-lein (datganiadau i’r wasg) | Daily Post, Papurau Newydd y Gogledd (Newsquest), Cyfres y Chronicle, Western Mail, walesonline, ac eraill | Rheolaidd |
| | Teledu | BBC Wales, ITV Wales, S4C, Made in North Wales | Rheolaidd |
| | Radio | BBC Wales, Radio Cymru, Heart FM a Capital FM (Communicorp), Dee Radio, Shore FM, a mwy | Rheolaidd |
| | Cynadleddau i'r Wasg | Y Wasg | Chwarterol |

DRAFT

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 Mai, 2019**

**TEITL:** *Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru'r Aelodau ar yr ymateb sydd wedi gyflwyno ar "Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru".

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. I gymeradwyo'r ymateb i "Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru" gan y Pwyllgor Materion Cymreig.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Nodi ymateb Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r "Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru".

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi lansio ymchwiliad i effaith a gwerth y nawdd a ddarparwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru efo rhan o'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf. Bydd yn asesu sut y gellir defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn eu sgil i lunio cynigion ar gyfer bargeinion o'r fath a fydd yn hybu twf economaidd trwy Gymru gyfan.

4.2. Roedd angen cyflwyno ymateb ysgrifenedig erbyn 5pm dydd Mawrth 14eg o Fai 2019.

### 4.3. Bargeinion Twf

4.3.1. Yn ystod cyhoeddi Cyllideb yr Hydref 2018, neilltuodd Canghellor y Trysorlys £120 miliwn o gyfalaf ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru, a chytunodd Llywodraeth Cymru i gyfrannu'r un swm. Serch hynny, nid yw'r cynllun wedi ei weithredu hyd yn hyn. Cafodd lefel y cyllid a neilltuwyd gan Lywodraeth y DU ei feirniadu am ei fod £50 miliwn yn llai na'r cynnig gwreiddiol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU roi rhagor o gefnogaeth i'r ardal. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn edrych ar effeithiolrwydd y fargen dwf o ran creu swyddi newydd ac annog buddsoddiad ychwanegol yn yr ardal.

4.3.2. Ers cyhoeddi Bargen Twf Gogledd Cymru, gwelwyd rhagor o gefnogaeth o blaid rhoi Bargen Dwf gwerth £200 miliwn i Ganolbarth Cymru er mwyn hybu twf economaidd yn yr ardal. Mae disgwyl i'r cytundeb gael ei gynnig cyn cyhoeddi Cyllideb yr Hydref.

**4.4. Bargeinion Dinesig**

4.4.1. Mae nifer o ardaloedd yng Nghymru eisoes wedi derbyn Bargeinion Dinesig er mwyn hybu twf economaidd. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 15 Fawrth 2016, a oedd yn cynnwys £1.2 biliwn o gyllid mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a deg awdurdod lleol. Yna cyhoeddwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym Mehefin 2017, gydag amcangyfrif o bron £1.3 biliwn ar ei chyfer.

4.4.2. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn edrych ar effaith y bargeinion hyn ac yn ystyried y modd y cânt eu gweithredu wrth fynd ati i ddatblygu bargeinion pellach i Gymru yn y dyfodol.

**4.5. Sylwadau'r Cadeirydd**

4.5.1. Wrth lansio'r ymchwiliad, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor, David T.C. Davies:

"Gyda'r Bargeinion Dinesig ar gyfer Caerdydd ac Abertawe yn y De, a'r potensial ar gyfer Bargeinion Twf yn Nghanolbarth a Gogledd Cymru, mae'n bosib y bydd cytundebau sy'n annog twf economaidd yn weithredol dros Gymru gyfan. Byddai hyn yn ddatblygiad cadarnhaol a'r gobaith yw y byddwn yn gweld ymrwymiad cryf gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Bargeinion Twf Canolbarth a Gogledd Cymru.

Bydd ymchwiliad fy Mhwyllgor yn craffu ar sut mae'r Bargeinion Dinesig yn gweithredu ar hyn o bryd, gan edrych ar yr effaith economaidd yn eu sgil, ac yn ystyried beth allwn ni ei ddysgu oddi wrthynt er mwyn cryfhau'r cynigion ar gyfer bargeinion twf i Ganolbarth a Gogledd Cymru."

**4.6. Gweler ymateb y Bwrdd Uchelgais yn Atodiad 1.**

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Cafodd yr ymateb ei gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 03/05/2019.

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Ymateb y Bwrdd Uchelgais i'r ymchwiliad i effeithiolrwydd y Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf i Gymru

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

"Dim sylwadau I'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Byddaf yn bresennol yn nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 17/05/2019 i gyflwyno sylwadau ar lafar, fel bo angen."

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru**

**Ymateb gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn bartneriaeth o'r chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd, ynghyd â dau Goleg AB, y ddwy Brifysgol, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy a Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw'r corff sy'n goruchwylio Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru.

Mae gan y Bwrdd Uchelgais weledigaeth ar gyfer dyfodol economi Gogledd Cymru "Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru". Yn ogystal mae "Cynllun Gweithredu" drafft mewn lle ar gyfer gosod trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru.

**Yr ymateb i'r cwestiynau**

| **Sut mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithredu ar hyn o bryd?** |
|---|
| |

| **Pa mor llwyddiannus oedd gweithredu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a pha welliannau sydd wedi'u gweld yn economi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ganlyniad?** |
|---|
| |

| **Sut mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi gwella'r economi lleol?** |
|---|
| |

| **Beth fydd yn newid gyda llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn sgil yr adolygiad annibynnol?** |
|---|
| |

| **Pa wersi ellir eu dysgu o'r Bargeinion Dinesig ar gyfer cynigion cynlluniau twf Gogledd a Chanolbarth Cymru?** |
|---|

Mae'r adolygiadau diweddar sydd wedi'u cyhoeddi ynghylch Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi darparu casgliadau ac argymhellion a fydd yn cael eu hystyried fel gwersi i'w dysgu arfaethedig ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

- Bydd y Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn annog craffu'r Achosion Busnes Amlinellol a'r Achosion Busnes Llawn ymlaen llaw.
- Bydd y Swyddfa Rhaglen yn cael ei dynodi'n Swyddfa Rheoli Portffolio, ac mae Canllaw Swyddfa Rheoli Portffolio'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Defnyddir proses Adolygu Porth er mwyn rheoli cynnydd Prosiectau'r Cynllun Twf drwy'r gweithrediad a'r cyflawniad.
- Caiff Cyfarwyddwr Rhaglen ei benodi er mwyn sicrhau y rhoddir arweiniad a chyngor awdurdodol annibynnol i'r Byrddau. Bydd gan y Cyfarwyddwr Rhaglen linell adrodd uniongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais.
- Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cyflawni Gweledigaeth Twf i Ogledd Cymru. Yn y tymor byr, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru sy'n gydran o'r Weledigaeth Twf. Mae'r Cynllun Twf yn cynnig pecyn sy'n cynnwys saith Rhaglen a 14 prosiect rhyng-gysylltiedig. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Uchelgais yn arwain ar nifer o Gynlluniau Ochr.
- Bydd pob un o'r 14 prosiect wedi'i gynnwys o fewn Penawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. Wrth gynnig ymagwedd ddeuol ar gyfer y 14 prosiect, bydd chwe phrosiect wedi'u cynnwys o fewn y cam cyntaf, a'r wyth sy'n weddill yn yr ail gam.
- Mae'r holl bartneriaid o fewn y Bwrdd Uchelgais wedi'u hymrwymo i'r bartneriaeth a chyflawni Gweledigaeth Twf y Gogledd. Caiff rolau a swyddogaethau prosiectau twf eu dosbarthu i sicrhau cydbwysedd cyfartal ar draws y Bwrdd Uchelgais.
- Mae trefniadau yn eu lle gan y Bwrdd Uchelgais ar gyfer llinellau cyfathrebu clir. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cyfarfod bob mis ac mae cynrychiolwyr yr holl bartneriaid o gwmpas y bwrdd. Hefyd, mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol yn cyfarfod bob mis - mae holl arweinwyr y prosiectau yn ffurfio rhan o'r grŵp hwn. Mae cyfarfodydd bob pythefnos wedi'u rhaglennu rhwng cynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais a swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**Beth fyddai effaith Cynllun Twf arfaethedig Gogledd Cymru ar economi'r Gogledd, pa sectorau fyddai'n elwa, a beth fydd ansawdd y swyddi a gaiff eu creu?**

Nod Cynllun Twf Gogledd Cymru yw cyflawni twf glân, cefnogi cynnydd o 6% mewn GVA, creu 4,298 o swyddi newydd, cynhyrchu £511 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat gan arwain at gyfraniad anuniongyrchol o £3.339bn gan y sector preifat. Yn ogystal, bydd yn darparu sail sgiliau sylweddol well yn y rhanbarth.

Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni'r isod ar gyfer y Gogledd:

1. **Adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd**, ac fel rhanbarth:
   - Byddwn wedi'n lleoli fel un o leoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau a phrosesau carbon isel;
   - Byddwn yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, i adeiladu clwstwr gweithgynhyrchu uwch - un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan byd-eang;
   - Byddwn yn canolbwynt o ragoriaeth arloesedd a thechnoleg ac yn arweinydd wrth drosi syniadau cyffrous yn gynnyrch a gwasanaethau masnachol cryf;

- Byddwn yn datblygu ac yn lledaenu enw da’r Gogledd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiannau seiliedig ar y tir a thwristiaeth ac yn sefydlu'n hunain yn gadarn fel prif leoliad twristiaeth antur y DU.

2. **Mynd i'r afael â heriau strwythurol hir-dymor a rhwystrau economaidd allweddol** yn y rhanbarth, megis trafnidiaeth, isadeiledd digidol, safleoedd ac eiddo sydd wedi'u hoedi, a materion sgiliau a chyflogaeth. Caiff hyn ei gyflawni mewn modd cydlynol, strategol ac integredig. Drwy ymyraethau o'r fath, byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso'r sector preifat i fuddsoddi mewn swyddi a thwf.
3. **Hyrwyddo twf cynhwysol**, gan roi sylw i afreoleidd-dra ac anghyfartaledd cymdeithasol a gofodol o fewn y rhanbarth. Mae twf cynhwysol yn rhan ganolog o raglen ein Cynllun Twf.
4. **Mynd i'r afael â materion sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer twf** fel yr amlinellir mewn dogfennau polisi allweddol, megis y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru, Cynllun Gweithredu Economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

Bydd yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol yn gweithio ar y cyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Gogledd - yn unol â'r nodau llesiant. Mae ein holl Raglenni yn seiliedig ar egwyddorion ymyraethau cydgysylltiedig, wedi'u cynllunio dros y tymor hir i gyflawni gwelliannau cynaliadwy ym mherfformiad economi'r Gogledd.

**A yw'r cyllid cyfredol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gefnogi Cynllun Twf Gogledd Cymru?**

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £120 miliwn yr un er dibenion Cynllun Twf i Ogledd Cymru.

Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu yn gwneud yr achos dros swm ychwanegol o £20 miliwn gan y naill lywodraeth a'r llall er mwyn cefnogi ariannu pecyn o brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r heriau y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu, yn benodol yng ngoleuni'r cyhoeddiad diweddar gan Horizon y bydd gwaith ar yr Orsaf Bŵer Niwclear newydd, Wylfa Newydd (sydd werth £20bn) yn cael ei atal am gyfnod amhenodol.

**Beth ddylai Cynllun Twf Canolbarth Cymru ei gynnwys ac ar ba sectorau y dylai ganolbwyntio?**

**Pa strwythurau cefnogi ddylai fod yn eu lle i alluogi i gynnig Cynllun Twf Canolbarth Cymru fod yn llwyddiannus?**